



# Ymateb i Her Driphlyg Brexit, COVID-19 a'r Newid yn yr Hinsawdd i iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru

Liz Green, Kathryn Ashton, Michael Fletcher, Adam T. Jones, Laura Evans, Tracy Evans,  
Lee Parry-Williams, Sumina Azam, Mark A Bellis




GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales



Canolfan Gydwethredol Sefydliad  
Iechyd y Byd ar Fuddsoddi  
ar gyfer Iechyd a Llesiant



<b>Crynodeb Gweithredol</b> .....	<b>3</b>
-----------------------------------	----------

<b>Trosolwg o'r Her Driphlyg</b> .....	<b>8</b>
--	----------

<b>1. Beth yw'r Her Driphlyg a beth yw'r berthynas ag iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru</b> .....	<b>10</b>
--	-----------

1.1 Cyd-destun polisi - polisiau allweddol a sbardunau strategol...	12
1.2 Llwybrau effaith .....	14
1.3 Pwysigrwydd masnach a chytundebau masnach rydd .....	15

<b>2. Effaith yr Her Driphlyg ar iechyd, llesiant a thegwch</b> .....	<b>17</b>
---	-----------

2.1 Penderfynydd Allweddol - Iechyd .....	18
2.2 Penderfynydd Allweddol - Ffactorau Cymdeithasol a Chymunedol .....	21
2.3 Penderfynydd Allweddol - Llesiant Meddyliol .....	24
2.4 Penderfynydd Allweddol - Yr Amgylchedd .....	26
2.5 Penderfynydd Allweddol - Mynediad at Wasanaethau ac Ansawdd Gwasanaethau .....	32
2.6 Penderfynydd Allweddol - Yr Economi .....	36

<b>3. Canfyddiadau allweddol</b> .....	<b>40</b>
--	-----------

<b>4. Camau gweithredu posibl i hyrwyddo iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru yng nghyd-destun yr Her Driphlyg</b> .....	<b>42</b>
--	-----------

<b>5. Casgliad</b> .....	<b>43</b>
--------------------------	-----------

<b>Cyfeiriadau</b> .....	<b>44</b>
--------------------------	-----------

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r **Her Driphlyg** yn disgrifio effeithiau cronol ac unigol **Brexit, COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd** ar iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru. Mae'r effeithiau hyn yn **amlochrog, nid ydynt yn aros yn eu hunfan ac maent yn debygol o effeithio ar Gymru yn y dyfodol agos ac yn yr hirdymor**. Yn yr adroddiad hwn rhoddir trosolwg strategol o effaith Brexit, y pandemig COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd, sy'n ddigwyddiadau arwyddocaol, a'r cysylltiadau rhyngddynt. Mae'n nodi'r penderfynyddion allweddol a'r grwpiau poblogaeth y mae'r Her Driphlyg yn effeithio arnynt ac yn darparu enghraifft allweddol ar gyfer pob penderfynydd.

Dengys y gwaith hwn yr angen i olrhain rhyngweithio ar draws digwyddiadau seismig o'r fath mewn modd rhagweithiol, er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodir ond hefyd er mwyn gwneud y mwyaf o unrhyw gyfleoedd a allai godi. Mae'r adroddiad hwn wedi'i anelu at ystod eang o gynulleidfaedd gan gynnwys cyrff cyhoeddus, ond bydd hefyd yn hynod berthnasol i'r Trydydd Sector a'r gymdeithas sifil ehangach. Y papur hwn yw'r cyntaf sy'n ymwneud â'r Her Driphlyg ac mae'n sail i waith a fydd yn cael ei wneud yn y dyfodol i archwilio'r rhyng-gysylltiadau o sawl ongl wahanol.

## Crynodeb o'r Canfyddiadau:

- Bydd yr Her Driphlyg yn cael ystod eang o effeithiau cyfansawdd ar sawl penderfynydd iechyd. Bydd angen edrych ar y rhain ar y cyd, yn eu crynswth ac nid drwy un lens.
- Ymhlith y penderfynyddion allweddol yr effeithir arnynt mae, er enghraifft, llesiant meddyliol, ansicrwydd bwyd, ymddygiad iechyd, polisi a rheoliadau amgylcheddol, cyflogaeth ac amodau gwaith.
- Ymhlith y grwpiau poblogaeth a allai gael eu heffeithio mae, er enghraifft, y rhai mewn cymunedau gwledig, pysgotwyr a ffermwyr, y rhai ar incwm isel a phlant a phobl ifanc.
- Ceir bwlch yn yr ymchwil a'r dystiolaeth gyhoeddedig sy'n cysylltu'r tair her â'i gilydd. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth sy'n cysylltu cyfuniadau o ddwy o'r heriau ag iechyd a llesiant a thegwch, er enghraifft; Brexit a COVID-19; neu COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd; neu Brexit a'r newid yn yr hinsawdd.
- Mae'r newid yn yr hinsawdd yn thema gyffredin yn y llenyddiaeth sy'n ymwneud â COVID-19 a Brexit. Mae'r ddwy her yn cyflwyno ffyrdd o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, er enghraifft gwella ansawdd aer yng Nghymru.

- Mae'r cyfnod hwn yn cynnig 'ffenestr gyfle' i newid polisi a fydd yn creu cydfanteision i iechyd a llesiant, yr economi ac amgylchedd cynaliadwy yng Nghymru. Mae rhai o'r meysydd polisi wedi'u datganoli i Gymru ac eraill heb eu datganoli ac felly bydd angen i wledydd weithio gyda'i gilydd i wneud y mwyaf o hyn.
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu amgylchedd sy'n galluogi Cymru i ddefnyddio lens Her Driphlyg mewn perthynas â pholisïau a strategaethau. Gellir trosglwyddo hyn i wledydd datganoledig tebyg eraill ledled y DU ac Ewrop.
- Mae cyfle i gryfhau negeseuon iechyd y cyhoedd ynghylch ymddygiad iechyd yn sgil cynnydd ym mhroffil materion iechyd y cyhoedd ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â Brexit, COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, deiet a maeth; ansicrwydd bwyd a gwastraff.
- Mae Masnach a Chytundebau Masnach Rydd yn sbardun pwysig i'r tair her a dylid ystyried eu heffaith ar iechyd a'u heffaith ehangach nawr ac yn y dyfodol. I rai penderfynyddion, er enghraifft rheoleiddio a safonau amgylcheddol neu'r economi, mae hyn yn fwy eglur nag ar gyfer eraill a chyfeirir atynt amlaf mewn perthynas â Brexit. Fodd bynnag, mae masnach hefyd yn bwysig ar gyfer COVID-19 er enghraifft, cyflenwi brechlynnau a'r newid yn yr hinsawdd gan y gall Cytundebau Masnach Rydd gyfyngu ar y gallu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a pholisïau a thargedau lleol. Mae angen ffordd fwy cyfannol ac integredig o lunio polisïau ar gyfer masnach ac mae angen arweinyddiaeth er mwyn dod â phawb yr effeithir arnynt ynghyd i ystyried effaith y rhain ar iechyd.
- Gall Brexit a'r pandemig gyflwyno cyfleoedd ar gyfer y dyfodol, er enghraifft i gefnogi 'chwyldro diwydiannol gwyrdd', 'swyddi gwyrdd' a mwy o gyflogaeth i greu economi decach, fwy cynaliadwy yng Nghymru ac 'Economi Llesiant'.

### Grwpiau Poblogaeth yr effeithir arnynt:


Gall nifer o elfennau'r Her Driphlyg arwain at effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar boblogaeth gyfan Cymru. Fodd bynnag, mae rhai elfennau'n effeithio'n anghymesur ar grwpiau poblogaeth unigol sy'n agored i niwed, gan gynnwys:

Babanod, plant ac oedolion ifanc	Ffermwyr, Pysgotwyr a gweithwyr yn y sector amaethyddol
Pobl hŷn	Gweithwyr hanfodol, gan gynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gyrwyr danfon nwyddau a gyrwyr cerbydau nwyddau trwm
Y rhai ar incwm isel / y rhai sy'n ddi-waith	Grwpiau lleiafrifoedd ethnig
Ardaloedd daeryddol, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd gwledig neu arfordirol, ardaloedd twristiaeth neu drefi porthladd	Mewnfdwyr a'u teuluoedd
Y rhai â chyflyrau ac anghenion iechyd presennol	Teuluoedd un rhiant

## Camau Gweithredu Posibl

- Dylid cydweithio ar lefel strategol (yn genedlaethol ac yn lleol drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, er enghraifft) i gydlynu camau gweithredu ac ymatebion i'r Her Driphlyg - bydd hyn yn cynyddu adnoddau i'r eithaf ac yn canolbwyntio ymdrechion ar y penderfynyddion a'r grwpiau hynny a fydd yn dioddef effaith driphlyg.
- Dylid ystyried polisiau a chamau gweithredu i fynd i'r afael â'r heriau gyda'i gilydd fel y gellir sicrhau'r cydfanteision mwyaf posibl i iechyd, yr amgylchedd a chymdeithas ac er mwyn lliniaru neu osgoi effeithiau anfwriadol ar sectorau a lleoliadau eraill.
- Datblygu neu ddefnyddio fframwaith cysyniadol 'iechyd ym mhob polisi' sy'n canolbwyntio ar weithredu er mwyn ystyried effaith yr Her Driphlyg yng Nghymru ar lefel leol neu genedlaethol.
- Gall defnyddio methodoleg Asesu Effaith ar Iechyd (HIA) fod o gymorth i adnabod effeithiau digwyddiadau fel Brexit, COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd yn gynnar a gweithredu fel canolbwynt ar gyfer trafodaeth bellach. Gallant nodi effeithiau posibl neu wirioneddol polisiau a chynlluniau mewn perthynas â'r Her Driphlyg yn ei chyfanrwydd; neu wrth ystyried effaith her unigol i ehangu ei chwmpas i ystyried heriau deuol er enghraifft, Brexit a'r newid yn yr hinsawdd ac effaith COVID-19. Gallai'r broses amlffocws hon gael ei gweithredu gan gyrff cyhoeddus a chymunedau lleol sy'n wynebu heriau cysylltiedig lluosog penodol. Gall unrhyw HIA arwain at liniaru effeithiau negyddol ar iechyd a llesiant a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd presennol neu gyfleoedd yn y dyfodol.
- Bydd datblygu mwy o ddata, tystiolaeth ac ymchwil (a defnyddio'r data a'r wybodaeth iechyd sydd ar gael eisoes) ar gyfer y tair her yn eu cyfanrwydd o gymorth i nodi ymhellach y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn y boblogaeth a'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio'n negyddol ac yn anghymesur ganddynt.
- Mae gan gymunedau lleol ymwybyddiaeth gref o effeithiau Brexit, COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd a bydd rhai cymunedau'n cael eu heffeithio i raddau mwy nag eraill. Bydd angen i gyrff cyhoeddus, timau lleol a'r boblogaeth gydweithio i fynd i'r afael â hyn. Mae adeiladu gwytnwch ar lefel y boblogaeth yn lliniarydd allweddol ynghyd â pholisiau addasu ac arferion mwy cynaliadwy.
- Bydd Masnach a Chytundebau Masnach Rydd yn y dyfodol yn cael effaith fawr ar iechyd a bydd ganddynt oblygiadau mawr i weithgareddau iechyd y cyhoedd. Dylai ymarferwyr iechyd y cyhoedd a llunwyr polisiau gydweithio modd ffordd gydgysylltiedig i hyrwyddo'r effaith y bydd masnach yn ei chael a chodi ymwybyddiaeth o hynny.
- Gall Brexit, COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd gael effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar ymddygiad iechyd er enghraifft, deiet, maeth, teithio llesol ac alcohol. Dylai negeseuon hybu iechyd dynnu sylw at gydfanteision newid ymddygiad i dargedu cynulleidfaoedd er enghraifft, mabwysiadu deiet sy'n gyfeillgar i'r blaned.
- Gall llunwyr polisiau ddatblygu senarios amgen ar gyfer ystod o faterion, er enghraifft, cadwyni cyflenwi, cyflogaeth ac amrywio defnydd a rheolaeth tir er mwyn nodi a lleihau gwendidau.
- Gall llunwyr polisiau a chymdeithas sifil ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn meithrin trafodaeth sy'n pontio'r cenedlaethau am effaith yr heriau mewn perthynas â'r amgylchedd a diogelwch hirdymor Cymru. Bydd hyn yn hyrwyddo cyfranogiad, sy'n ffactor amddiffynnol craidd ar gyfer llesiant meddyliol, o ran polisi a chamau gweithredu yn y dyfodol.

# Ymateb i Her Driphlyg Brexit, COVID-19 a'r Newid yn yr Hinsawdd i Iechyd, Llesiant a Thegwch yng Nghymru



## Beth yw'r Her Driphlyg?

Effeithiau cronol ac unigol Brexit, COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd ar iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru. Mae'r effeithiau hyn yn amlochrog, nid ydynt yn aros yn eu hunfan a byddant yn effeithio ar Gymru yn y dyfodol agos ac yn yr hirdymor.

## Ystadegau Allweddol - Cymru:

**Cyfanswm y boblogaeth yng nghanol 2020**

3,169,586  
50.67%  
49.33%

(StatsCymru, 2021a).

**Rhwng 2017-19 a 2019-20, roedd**

**23%**

yn byw mewn tldi incwm cymharol (Llywodraeth Cymru, 2021a).

**Bu cynnydd o 0.9°C yn y tymheredd blynyddol cyfartalog o ganol y 1970au hyd ganol 2010au**

Erbyn y 2050au rhagwelir y bydd y tymheredd blynyddol yn codi 1.2°C (Netherwood, 2021).

**Cyn y pandemig – roedd**

**3 O BOB 10**

o blant yn byw mewn tldi (Matejic, 2020).

**Ym mis Mehefin 2021, roedd y gyfradd ddiweithdra yn 4.3%,**

**CYNNYDD O 1.2**

pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. (Llywodraeth Cymru, 2021d).

**Bu cynnydd o 2.0% mewn glawiad cymedrig blynyddol o ganol y 1970au hyd ganol y 2010au.**

Erbyn yr 2050au, rhagwelir **gostyngiad o tua 15%** yng nglawiad yr haf (Netherwood, 2021).

**Mae tua 2.4 o farwolaethau'n gysylltiedig â gwres fesul 100,000 o'r boblogaeth** (Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2016).

**£0.529bn**

o allforion bwyd yng Nghymru yn 2017, cynnydd o 21% ers 2016 (Bwyd a Diod Cymru, 2019).

Mae dros 11% o gyfanswm masnach y DU yn ôl cyfaint yn dod drwy borthladdoedd Cymru bob blwyddyn. (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017).

**Covid-19: Ar 29 Awst, roedd 278,262 o farwolaethau cronol wedi'u cadarnhau a 5,672 o farwolaethau cronol tybiedig** (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021).

**Roedd cymorthdaliadau'r UE yn 80% o incwm ffermydd yng Nghymrus** (Tŷ'r Arglwyddi, 2017).

## Y Deyrnas Unedig:

**Roedd tua 900,000 o ddinasyddion yn breswylwyr hirdymor yng ngwledydd eraill yr UE yn 2010 a 2011** (Llywodraeth Cymru, 2017).

**Gwelwyd cynnydd o rhwng 1.2 ac 1.6mm y flwyddyn yn lefel y môr er 1901.** (Netherwood, 2021).

**Cafodd 26%**


o'r bwyd a fwytawyd yn 2020 ei fewnforio o'r UE (Chatham House, 2020)

**Roedd dros 4 miliwn o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol yn dibynnu ar allforion i'r UE** (Y Ganolfan Ymchwil Economeg a Busnes, 2014)

**Gwnaed 26,903**

o geisiadau am loches yn ystod y 12 mis diwethaf o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021 (Y Swyddfa Gartref, 2021).

**Rhwng 2008 a 2013, derbyniodd y DU €8.8 biliwn o gyllid gwyddoniaeth yr UE** (Confederasiwn GIG Cymru, 2018).



## Cyfleoedd

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu amgylchedd sy'n galluogi Cymru i ddefnyddio lens Her Driphlyg mewn perthynas â pholisïau a strategaethau.

- 'Ffenestr gyfle' ar hyn o bryd i newid polisi.

- Cryfhau negeseuon iechyd cyhoeddus yn ymwneud ag ymddygiad iechyd drwy godi proffil materion iechyd y cyhoedd a materion amgylcheddol.

- Cefnogi 'chwyldro diwydiannol gwyrdd' a 'swyddi gwyrdd' i greu economi decach, fwy cynaliadwy i Gymru.

## Camau gweithredu posibl ar gyfer y rhai sy'n llunio pholisïau ac yn gwneud penderfyniadau

- Cydweithio ar lefel strategol a chydlynu camau gweithredu ac ymatebion i'r Her Driphlyg.

- Defnyddio'r fethodoleg asesu effaith er mwyn adnabod effeithiau yn gynnar.

- Defnyddio negeseuon hybu iechyd i dynnu sylw at gydfanteision newid ymddygiad i dargedu cynulleidfaoedd.

- Datblygu mwy o ddata, tystiolaeth ac ymchwil ar gyfer y tair her yn eu cyfanrwydd.

- Datblygu fframwaith cysyniadol 'iechyd ym mhob polisi' sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi.

- Cefnogi meithrin gwytnwch ar lefel y boblogaeth.

- Ymgysylltu â'r cyhoedd.

# Trosolwg o'r Her Driphlyg

Mae pandemig byd-eang y Coronafeirws SARS-CoV-2 (COVID-19) wedi datgelu'r cysylltiadau cymhleth sydd wedi'u cydblethu rhwng iechyd, llesiant, tegwch, yr economi, yr amgylchedd, a'r gymdeithas gyfan. Wrth wneud hynny, mae wedi creu anghydraddoldebau newydd, ond hefyd wedi gwaethygu anghydraddoldebau ac annhegwch iechyd a chymdeithasol presennol (Marmot et al., 2020, Dyakova et al., 2021). Mae bygythiadau fel y Deyrnas Unedig (DU) yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ('Brexit') a'r newid yn yr hinsawdd hefyd yn cael effaith gronol ar iechyd a llesiant poblogaeth Cymru (Green et al., 2020a).

Mae angen i adferiad Cymru a'r DU o'r pandemig ystyried ymadawiad y DU o'r UE a rhyngweithio'n ddi-dor â hynny. Rhaid hefyd ystyried sut i ddatblygu gwytnwch cenedlaethol a lleol a darparu cefnogaeth i lawer o ddiwydiannau a chymunedau agored i niwed sydd hefyd yn wynebu her gynyddol yn sgil newid yn yr hinsawdd a thywydd eithafol amlach. Rhaid i Gymru fynd i'r afael â natur amlochrog ac esblygiadol Brexit, COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd nid yn unig ar eu pen eu hunain, ond yn eu crynswth. Cymhlethir hyn ymhellach gan y ffaith nad yw'r rhain yn ddigwyddiadau sy'n aros yn eu hunfan a bydd llanw a thrai i'w weld dros y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Mae Cymru a'r DU yn wynebu 'Her Driphlyg' ddigynsail y mae'n rhaid mynd i'r afael â hi mewn ffordd gydlynol - un sy'n ystyried dyfodol y blaned a'i phoblogaeth ac sy'n nodi atebion i'r heriau llesiant ac economaidd sydd wedi dod yn fwyfwy amlwg yn sgil Brexit a COVID-19.

Yn 2019, cynhaliodd Uned Cymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU), Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant yn Iechyd Cyhoeddus Cymru Asesiad o Effaith ar Iechyd (HIA) ar oblygiadau Brexit i iechyd y cyhoedd. Nod hyn oedd deall yn well oblygiadau'r heriau gwahanol hyn i iechyd a thegwch (Green et al., 2019; Green et al., 2020b). Proses systematig a hyblyg sy'n seiliedig ar dystiolaeth yw HIA sy'n nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol polisïau, cynlluniau a digwyddiadau fel Brexit ar iechyd a llesiant poblogaeth dros y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Mae hefyd yn nodi cyfleoedd ar gyfer manteision iechyd ac effeithiau negyddol anfwriadol y mae angen eu lliniaru. Mae'n canolbwyntio ar degwch ac fel rhan o'r broses mae'n tynnu sylw at yr effeithiau penodol ar gyfer grwpiau poblogaeth agored i niwed yr effeithir arnynt yn benodol, er enghraifft, plant neu'r rhai ar incwm isel (WHIASU, 2012).

Gan ddefnyddio'r un lens amlffocws, cafodd y dull HIA hefyd ei gymhwyso i agweddau uniongyrchol ar y pandemig COVID-19 er enghraifft, y 'Polisi Aros yn y Cartref ac Ymbellhau Cymdeithasol' (y cyfeirir ato'n gyffredin fel 'cyfnod clo') a gweithio gartref ac ystwyth (Green et al., 2020c; Green et al., 2020b). At hynny, mae HIA yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd sy'n asesu effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd a llesiant yng Nghymru (Green et al., 2021, arfaethedig). Mae'r gwaith a wnaed hyd yma eisoes wedi dangos bod llawer o elfennau cyffredin a synergedd rhwng y tair her hyn, eu heffaith ar degwch iechyd, a phenderfynyddion ehangach iechyd.



## Papurau Dan y Chwyddwydr yr Her Driphlyg:

Y papur hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau byr sy'n anelu at ddarparu trosolwg strategol o'r rhyngweithio cymhleth rhwng Brexit, COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel yr 'Her Driphlyg') a phenderfynyddion allweddol iechyd, llesiant a thegwch. Gan ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth, mae pob papur yn canolbwyntio ar benderfynyddion iechyd a grwpiau'r boblogaeth yr effeithir arnynt a'i nod yw cefnogi rhanddeiliaid strategol a sefydliadol i ddeall yn well yr Her Driphlyg sy'n wynebu Cymru nawr, ac yn y dyfodol.

### Nod:

- Galluogi gwell dealltwriaeth o effeithiau neu gyfleoedd cadarnhaol posibl o ran iechyd, llesiant a thegwch ac effeithiau negyddol yr Her Driphlyg yng Nghymru.
- Rhoi trosolwg o'r grwpiau poblogaeth yng Nghymru a fydd yn cael eu heffeithio'n bennaf gan yr Her Driphlyg.
- Dadansoddi cyd-destun polisi Cymru, y DU a'r cyd-destun polisi rhyngwladol nawr ac yn y dyfodol, gan gynnwys ystyried ysgogiadau polisi.
- Cyfleu camau gweithredu posibl ar gyfer y dyfodol i ystod eang o randdeiliaid eu hystyried a'u gweithredu gan gynnwys lliniaru ar gyfer unrhyw effeithiau negyddol neu effeithiau negyddol anfwriadol a sut i wneud y mwyaf o gyfleoedd.
- Hyrwyddo trafodaeth a chamau gweithredu.

### Methodoleg:

Gan adeiladu ar dystiolaeth a chanfyddiadau'r HIAs blaenorol (Green et al., 2019; Green et al., 2020c; Green et al., 2021, arfaethedig), cynhaliwyd chwiliadau tystiolaeth cyflym o'r llenyddiaeth academiaidd a'r llenyddiaeth lwyd i ganfod llenyddiaeth a oedd yn canolbwyntio ar yr Her Driphlyg a'i heffeithiau. Drwy'r broses hon, nodwyd penderfynyddion allweddol iechyd, llesiant a thegwch y mae'r Her Driphlyg wedi effeithio arnynt.

### Y gynulleidfa:


Nod y papur hwn yw cefnogi llunwyr polisiâu a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar draws ystod eang o sectorau a lleoliadau gan gynnwys gwasanaethau a systemau iechyd y cyhoedd a gofal iechyd, yr economi a'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy, a rhanddeiliaid sefydliadol strategol gan gynnwys cyrff cyhoeddus a'r trydydd sector.




# 1 BETH YW'R HER DRIPHLYG A BETH YW'R BERTHYNAS AG IECHYD, LLESIANT A THEGWCH YNG NGHYMRU?

Mae'r Her Driphlyg yn disgrifio effeithiau cronol ac unigol Brexit, COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd ar iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru. Mae'r effeithiau hyn yn amlochrog, nid ydynt yn aros yn eu hunfan a byddant yn effeithio ar Gymru yn y dyfodol agos ac yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir (Ffigur 2, Blwch 1).

**Ffigur 1: Natur gydberthynol yr Her Driphlyg**



**Ffigur 2: Trosolwg o'r Her Driphlyg i iechyd, llesiant a thegwch**



## Blwch 1: Enghreifftiau o effaith Brexit, COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd ar iechyd, llesiant a thegwch

Mae'r pandemig COVID-19 wedi arwain at lefelau uchel o farwolaethau ac afiachedd ymysg rhai poblogaethau yng Nghymru, er enghraifft pobl hŷn a'r rhai o grwpiau lleiafrifoedd ethnig (Public Health England, 2020). Fodd bynnag, i eraill mae hefyd wedi arwain at lefelau uchel o amlygiad i'r feirws, er enghraifft, y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a gweithluoedd hanfodol eraill fel gweithwyr manwerthu a gweithwyr gwasanaethau brys a chyfleustodau. Mae effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol eraill ar iechyd yn cynnwys yr effaith ar lesiant meddyliol, ynysigrwydd cymdeithasol ac ansawdd aer ar draws y boblogaeth (Ricardo Energy and Environment, 2020; Llywodraeth Cymru, 2019a; Fore, 2020; Y Sefydliad Iechyd Meddwl, 2021). Ymhlith y grwpiau yr effeithir arnynt mae babanod, plant a phobl ifanc, menywod, y rhai ar incwm isel a'r rhai â chyflyrau iechyd presennol (Joyce a Xu, 2020; Green et al., 2021).

Gall newid yn yr hinsawdd effeithio ar iechyd a llesiant yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy, er enghraifft, hwyluso faint o weithgaredd corfforol y mae rhywun yn ei wneud, eu cyflogaeth a'r amgylchedd lleol (Watts et al., 2018; Watts et al., 2021). Gall effeithio ar gymunedau cyfan fel Fairbourne yng ngogledd Cymru a thrigolion mewn poblogaethau cyfan neu wasgaredig ledled Cymru, yn dibynnu ar natur mathau o dywydd eithafol fel llifogydd (Buser, 2020; CCRA, 2021). Efallai y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu heffeithio, yn ogystal â'r rhai ar incwm isel a'r rhai mewn lleoliadau neu waith penodol, er enghraifft, gweithwyr amaeth.

Gall Brexit effeithio ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'u gweithluoedd, ar yr economi ac arwain at golli mynediad at gyllid i wella seilwaith cymdeithasol ac amgylcheddol mewn cymunedau (Fahy et al., 2018, Fahy et al., 2020; Senedd y DU, dim dyddiad). Bydd yn effeithio ar ystod eang o grwpiau poblogaeth gan gynnwys preswylwyr y tu allan i'r DU, pobl hŷn, y rhai sy'n gweithio mewn diwydiannau sy'n agored iawn i wynebu rhwystrau'n gysylltiedig â masnach a thariffau a dynion (Green et al., 2019, Cydffederasiwn GIG Cymru, 2019; Cydffederasiwn GIG Cymru, 2021).



## 1.1 CYD-DESTUN POLISI - POLISIÂU ALLWEDDOL A SBARDUNAU STRATEGOL

**Mae polisiâu a strategaethau llywodraethau a sefydliadau yn bwysig** mewn perthynas â'r Her Driphlyg, fel **llwybrau effaith ac fel sbardunau strategol ar gyfer newid yn y dyfodol**. Mae rhyngweithio cymhleth yn digwydd er mwyn cynhyrchu a gweithredu polisiâu - rhai ohonynt yn cyd-fynd â rhai llywodraethau ac asiantaethau rhyngwladol eraill, a rhai ohonynt yn wahanol. Gall polisiâu integredig sydd wedi'u halinio arwain at **gydfanteision i iechyd a llesiant**. Fodd bynnag, **gallant hefyd gael effeithiau negyddol anfwriadol** os na chânt eu datblygu'n ofalus mewn ffordd gyfannol er enghraifft, gallai rhai camau i fynd i'r afael ag un her a chynyddu effaith polisi hefyd gael effaith negyddol anfwriadol ar feysydd polisi eraill neu greu neu waethygu anghydraddoldebau iechyd (Paavola, 2017). Mae'r adrannau isod yn amlinellu'r polisiâu, y ddeddfwriaeth a'r strategaethau sy'n berthnasol i'r Her Driphlyg ac i Gymru.

### Rhyngwladol

Gellir dod o hyd i fframwaith polisi canolog sylfaenol ar raddfa fyd-eang yn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (Cenhedloedd Unedig, 2015). Wedi'u lansio yn 2015, mae Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn cynnwys 17 o nodau a 169 o dargedau i wledydd ledled y byd weithio tuag atynt mewn ymgais i greu ac ymgorffori dyfodol mwy cynaliadwy. Mae'r Nodau'n cynnwys ysgogwyr polisi fel Dim Tlodi (Nod 1), Iechyd a Llesiant Da (Nod 3) a Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd (Nod 13). Mae'r Cenhedloedd Unedig yn tynnu sylw at y ffaith bod y Nodau yn cydnabod bod yn rhaid i'r gwaith o ddod â thlodi a mathau eraill o amddifadedd i ben fynd law yn llaw â strategaethau sy'n gwella iechyd ac addysg, lleihau anghydraddoldeb, a sbarduno twf economaidd - ar yr un pryd â mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a gweithio i ddiogelu ein cefnforoedd a'n coedwigoedd (Y Cenhedloedd Unedig, 2015). Er ei bod yn amlwg nad oes gan Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig gysylltiad uniongyrchol â Brexit, maent yn nodi uchelgeisiau datblygu cynaliadwy sy'n ymwneud â rhai o'r pryderon allweddol sy'n gysylltiedig â Brexit megis Nod 12 ar Ddefnyddio a Chynhyrchu Cynaliadwy gyda'i ddangosyddion sy'n gysylltiedig â chaffael, twristiaeth a rheoli cemegau (Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig, 2021a). Mae hyn ochr yn ochr â'r angen i bartneriaethau rhyngwladol sefydledig gyflawni'r nodau (Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig, 2021b).

Mae dadansoddiad blynyddol y Cenhedloedd Unedig o gynnydd yn erbyn y Nodau Datblygu Cynaliadwy wedi cael ei wneud o safbwynt COVID-19 ers ymddangosiad y pandemig, er enghraifft mae Nod 12 yn ystyried y pandemig fel ffenestr gyfle i archwilio modelau datblygu mwy cynhwysol a theg sy'n seiliedig ar ddefnydd a chynhyrchu cynaliadwy (Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig, 2021a).

### Y Deyrnas Unedig (DU)

Mae Brexit yn fater deddfwriaethol sydd wedi ei gadw yn ôl i Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae'n effeithio ar ystod o faterion datganoledig yng Nghymru gan gynnwys yr amgylchedd, yr economi, iechyd a gwasanaethau iechyd (Senedd Cymru, 2020). Mae gan ddeddfwriaeth a phapurau polisi sy'n ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd (UE) a chysylltiadau â'r UE a gwledydd eraill yn y dyfodol ffocws mawr ar ysgogwyr economaidd megis masnach a Chytundebau Masnach Rydd. Maent hefyd yn cynnwys rhywfaint o gydnabyddiaeth o uchelgeisiau newid yn yr hinsawdd fel rhan o'r safbwynt negodi ar gyfer perthnasoedd masnachu yn y dyfodol. Er enghraifft, mae dull y DU o negodi cytundeb masnach rydd gyda Seland Newydd yn anelu at gael y ddwy wlad i weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo twf glân drwy fasnach sy'n cefnogi Ymrwymadau Hinsawdd Sero Net i'r ddwy wlad ac adeiladu ar 'lefel uchel o amddiffyniadau amgylcheddol' (Adran Masnach Rhyngwladol, 2020, t.7). Mae newid yn yr hinsawdd yn fater sydd wedi'i ddatganoli i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, mae llywodraeth y DU yn negodi cytundebau, megis llofnodi Cytundeb Paris yn 2015, neu'n cynnal cyfarfodydd fel Cyngres y Partïon 26 (COP26), sy'n canolbwyntio'n benodol ar y newid yn yr hinsawdd. Gweithredir y rhain ar lefel genedlaethol yn y DU gyda mewnbwn gan y gwledydd datganoledig (Griffiths, 2019).

## Cymru

Mae gan Gymru'r gallu i wneud ei pholisïau a'i rheoliadau ei hun mewn perthynas â materion datganoledig (Llywodraeth y DU, 2018 a Llywodraeth y DU, 2017) sy'n cynnwys y newid yn yr hinsawdd, yr Amgylchedd, Busnes a'r Economi ac Iechyd. Nid yw materion eraill fel Plismona, Masnach a Buddsoddi wedi'u datganoli ac maent wedi'u cadw yn ôl gan Lywodraeth y DU.

Yn ystod y pandemig COVID-19, deddfodd a gweithredodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth a rheoliadau i fynd i'r afael â throsglwyddo'r feirws. Roedd y rhain yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i bobl aros gartref bob amser heblaw am amgylchiadau penodol er enghraifft, mynd i apwyntiad meddygol neu i gael cyflenwadau bwyd a gweithio gartref os yn bosibl (Llywodraeth y DU, 2020; Llywodraeth Cymru, 2020a). Mae'r ymateb i'r pandemig a'r gwaith cynllunio ar gyfer adferiad yn parhau. Ar brydiau, mae'r pedair gwlad wedi cysoni eu polisïau, eu deddfwriaeth a'u camau gweithredu, er enghraifft, Cynlluniau Cadw Swyddi, grantiau ar gyfer busnesau bach a chymorth i'r rhai sy'n ddigartref (Busnes Cymru, dim dyddiad).

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymateb i Brexit a chynllunio ar ei gyfer ac mae wedi nodi ei blaenoriaethau mewn perthynas ag ymadael, ei bwysigrwydd i Gymru a'i effaith ar draws ystod o feysydd pwnc er enghraifft, masnach, amaethyddiaeth ac iechyd a gofal cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2021p).

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021j) yn amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer tymor presennol Senedd Cymru. Mae'n cynnwys ffocws cryf ar y newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd, a adlewyrchir drwy greu 'uwch-Weinyddiaeth' bwrpasol (Llywodraeth Cymru, 2021j) sy'n dwyn ynghyd y meysydd polisi trafnidiaeth, tai, cynllunio, ynni a pholisi amgylcheddol. Mae'r Rhaglen yn ymrwmo i ymgorffori'r ymateb 'i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn'. Mae hyn yn cynnwys camau fel cyflwyno Deddf Aer Glân ymhlith y rhwymedigaethau hyn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Llywodraeth Cymru, 2021q; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015) yn ymrwmo pob corff cyhoeddus datganoledig, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i ddatblygu a siapio eu gwaith ar sail ymrwymiad i'r egwyddor datblygu cynaliadwy a phum ffordd o weithio. Yn hollbwysig yng nghyd-destun yr Her Driphlyg, mae'n ymrwmo cyrff i ffurfio dull integredig yn eu gweithgareddau ochr yn ochr â ffocws ar atal, cydweithio, meddwl yn yr hirdymor a chynnwys y cyhoedd. Wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r 'Rhaglen Lywodraethu', mae Datganiad Llesiant Llywodraeth Cymru (2021k) yn amlinellu sut y mae cynigion Llywodraeth Cymru 'wedi'u cynllunio i gefnogi dull gweithredu integredig' a byddant yn sicrhau bod 'cyfleoedd i gyflawni mwy drwy integreiddio polisïau a rhaglenni yn cael eu nodi'n gynnar ac y gweithredir ar y cyfleoedd hynny.' Mae hyn yn creu cyfle i ganolbwyntio mwy ar weithredu polisi cynaliadwy a theg sy'n gysylltiedig ag elfennau'r Her Driphlyg gyda'i gilydd, nid ar wahân.

Mewn perthynas uniongyrchol ag iechyd, mae Adroddiad Arbennig Prif Swyddog Meddygol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021c) yn hyrwyddo dull 'Iechyd Cyfunol' sy'n ystyried bod iechyd a llesiant y boblogaeth, anifeiliaid ac ecosystemau yn gysylltiedig â'i gilydd, a thrwy hynny ei gwneud yn angenrheidiol i gydweithio ar draws sectorau a disgyblaethau er mwyn mynd i'r afael â phroblemau neu risgiau sy'n codi yn y rhyng-gysylltiad rhwng anifeiliaid, bodau dynol ac ecosystemau.

Cymru hefyd yw'r wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno Deddf Iechyd y Cyhoedd. Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Llywodraeth Cymru, 2017b) yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sydd â'r nod o wella iechyd y boblogaeth, ond yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i'r gwaith hwn yw'r gofyniad i gyrff cyhoeddus gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd. Mae'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cysylltiedig yn ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus gynnal HIA cyn cychwyn ar raglenni gwaith newydd mawr, er mwyn asesu effeithiau tymor byr, tymor canolig a thymor hir tebygol y prosiect ar iechyd corfforol a meddyliol poblogaeth Cymru.

Gellir rhagweld y bydd mentrau yn cael eu cyflwyno i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, COVID-19 neu Brexit ar iechyd a llesiant a fydd yn gofyn am gynnal HIA.

## 1.2 LLWYBRAU EFFAITH

Bydd yr effeithiau ar iechyd a llesiant grwpiau penodol o'r boblogaeth yn digwydd oherwydd **sawl llwybr sy'n dod i'r amlwg yn sgil Brexit, COVID-19 neu'r newid yn yr hinsawdd**. Bydd yr amodau hyn yn cael eu creu gan yr hyn a gynhwysir mewn Cytundebau Masnach Rydd, amgylchiadau economaidd ac amgylcheddol a pholisïau cyhoeddus er mwyn addasu i'r cyddestun a'r sefyllfa. Mae rhai o'r ffactorau hyn wedi'u datganoli, er enghraifft, iechyd a gofal cymdeithasol ond nid eraill, er enghraifft, masnach ryngwladol.

Mae Blwch 2 isod yn rhestru'r llwybrau effaith sy'n deillio o'r tair Her.

### Blwch 2

#### Brexit - llwybrau effaith:

- Newid safonau rheoleiddio a fframweithiau cyfreithiol (wedi'u datganoli a heb eu datganoli)
- Dadleoli pobl, colli rhyddid i symud a'r newidiadau i bolisïau mewnfudo (heb eu datganoli).
- Dirwasgiad economaidd, chwyddiant a gostyngiad cysylltiedig mewn cyllid ar gyfer y sector cyhoeddus, seilwaith ac asedau cymunedol allweddol (wedi'u datganoli a heb eu datganoli).
- Gadael y farchnad sengl a / neu'r undeb tollau (heb eu datganoli).
- Ffactorau'n ymwneud â llesiant meddyliol gan gynnwys gwytnwch, rheolaeth a chyfranogi gan gynnwys mwy o straen a gorbryder; ansicrwydd ynghylch y dyfodol h.y. statws preswlydd sefydlog (wedi'u datganoli a heb eu datganoli).
- Llai o fynediad at fecanweithiau rhannu data, gwybodaeth a rhannu tystiolaeth (wedi'u datganoli a heb eu datganoli).
- Llai o fynediad at systemau iechyd y cyhoedd cydlynus allweddol (wedi'u datganoli a heb eu datganoli).
- Gwahaniaethau rheoliadol sy'n cynyddu gofynion tollau ar ffiniau (heb eu datganoli).
- Hawliau Gwladolion yr UE i fyw a gweithio yn y DU (heb eu datganoli).
- Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol (wedi'u datganoli a heb eu datganoli).
- Y ffaith nad yw Dinasyddion y DU bellach yn ddinasyddion yr UE (heb ei ddatganoli).

#### COVID-19 - llwybrau effaith:

- Polisïau i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19 er enghraifft, aros gartref, cadw pellter cymdeithasol, gweithio gartref, cau rhai sectorau, tarfu ar addysg a gofal plant (wedi'u datganoli).
- Dirwasgiad economaidd, chwyddiant a gostyngiad cysylltiedig mewn cyllid ar gyfer y sector cyhoeddus, seilwaith ac asedau cymunedol allweddol (wedi'u datganoli a heb eu datganoli).
- Dadleoli pobl, colli rhyddid i symud a'r newidiadau i bolisïau mewnfudo (heb eu datganoli).
- Perygl o farwolaeth ac afiachedd yn sgil y feirws COVID-19 / dim symptomau ac oedi gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (wedi'u datganoli).
- Ffactorau'n ymwneud â llesiant meddyliol gan gynnwys gwytnwch, rheolaeth a chyfranogiad, ynysigrwydd cymdeithasol; straen a gorbyder; ansicrwydd ynghylch y dyfodol, ofn y feirws (wedi'u datganoli a heb eu datganoli).
- Llai o fynediad at systemau iechyd y cyhoedd cydlynus allweddol (wedi'u datganoli a heb eu datganoli).
- Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol (wedi'u datganoli a heb eu datganoli).



### Newid yn yr hinsawdd - llwybrau effaith:

- Newid safonau rheoleiddio a fframweithiau cyfreithiol (wedi'u datganoli a heb eu datganoli).
- Newidiadau i fecanweithiau cyllido (wedi'u datganoli a heb eu datganoli).
- Dadleoli'r boblogaeth, colli rhyddid i symud a newidiadau i bolisiau mewnfudo (heb eu datganoli).
- Dirwasgiad economaidd, chwyddiant a gostyngiad cysylltiedig mewn cyllid ar gyfer y sector cyhoeddus, seilwaith ac asedau cymunedol allweddol (wedi'u datganoli a heb eu datganoli).
- Mwy o risg y bydd lleoliadau, gweithluoedd a seilwaith, er enghraifft, amaethyddiaeth, trafniadaeth, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn profi tywydd eithafol (wedi'u datganoli a heb eu datganoli).
- Ffactorau'n ymwneud â llesiant meddyliol gan gynnwys gwytnwch, rheolaeth a chyfranogiad, ynysigrwydd cymdeithasol; straen a gorbryder; ansicrwydd ynghylch y dyfodol h.y. gwarchod y blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol (wedi'u datganoli a heb eu datganoli).
- Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol (wedi'u datganoli a heb eu datganoli).



## 1.3 PWYSIGRWYDD MASNACH A CHYTUNDEBAU MASNACH RYDD

Mae masnach yn ffactor pwysig mewn perthynas â'r Her Driphlyg ac mae'n benderfynydd iechyd allweddol o ran cyflogaeth a'r economi. Mae Brexit wedi golygu y bydd angen i'r DU, am y tro cyntaf ers dros 40 mlynedd, gael polisi masnach mewn perthynas â'r UE a gwledydd eraill a blociau masnachu rhyngwladol. Mae Brexit wedi galluogi'r DU i negodi Cytundebau Masnach Rydd newydd yn annibynnol (Johnson et al., 2021). Gall y rhain fod yn sbardun ar gyfer cynnydd neu leihad mewn twf a datblygiad economaidd yn dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei gynnwys / hepgor a thariffau masnach a Rhwystrau Technegol i Fasnach a allai gael eu gweithredu ar draws yr holl bartion.

Felly gallent gael effaith fawr ar iechyd a llesiant drwy leihau gweithgaredd economaidd a chyflogaeth (Johnson et al., 2021) ynghyd ag effaith bosibl ar wasanaethau iechyd; rheoliadau, cyflenwad a safonau bwyd; a chyflogaeth (Labonté et al., 2020; Gleeson et al., 2019; Hirono et al., 2016 a van Schalkwyk et al., 2021). Mae ymadael â'r UE wedi cael effaith ar lefel y mewnfurion / allfurion i'r DU a Chymru ac adroddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mawrth 2021 fod mewnfurion ac allfurion i'r UE wedi gostwng yn sylweddol ym mis Ionawr 2021 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021d). Ar ddechrau 2021, roedd y lefelau wedi gostwng gyda nwyddau a allforiwyd i'r UE yn gostwng o £13.6 biliwn i £7.88 biliwn o bunnoedd, a gwerth mewnfurion yn gostwng o £22.7 biliwn i £15.8 biliwn cyn Brexit (Statista, 2021a; Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021d) y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, gallai rhywfaint o hyn fod oherwydd cyfyngiadau a rheoliadau COVID-19 yn hytrach na Brexit, neu oherwydd cyflenwad gormodol cyn y dyddiad Ymadael a chyn cytuno ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE a'r DU. Gall Cytundebau Masnach Rydd hefyd effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar alluoedd y llywodraeth i lunio deddfwriaeth i hyrwyddo neu ddiogelu iechyd, er enghraifft, polisiau iechyd yr amgylchedd ar gyfer safonau bwyd a labelu bwyd, ond hefyd polisiau prisiau fel Isafbris Uned y gall corfforaethau mawr eu herio fel rhwystrau i fasnach rydd.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith fawr ar Gynnyrch Domestig Gros yng Nghymru a'r DU (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021b). Gall masnach wedi'i negodi a Chytundebau Masnach Rydd fod yn fuddiol i'r DU, ond hefyd yn ffafriol i'r genedl-wladwriaeth arall, blociau a'u poblogaethau (Yr Adran Masnach Ryngwladol, 2020) fel rhan o'r adferiad a'r adfywiad. Gallant wneud hyn drwy hyrwyddo twf economaidd ar gyfer y dyfodol ledled y byd. Fodd bynnag, gall Cytundebau Masnach Rydd gael effeithiau negyddol, a chanlyniadau anfwriadol,

ar iechyd a'r economi mewn perthynas â COVID-19. Er enghraifft, gallant gymhlethu cadwyni cyflenwi ymhellach oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth a rheoleiddio, er enghraifft labelu, ac mae ganddynt oblygiadau i gyflymder cael nwyddau, gwasanaethau, gweithluoedd a meddyginiaethau o'r UE a blociau masnachu eraill (McNamara, 2017; McNamara a Labonté, 2016; Labonté et al., 2020; Hur a Park, 2012).

Mae masnach yn un o brif ysgogwyr cludo nwyddau, pobl a chynhyrchion i wledydd mewn awyrennau, lorïau a llongau o bob cwr o'r byd. Mae cost amgylcheddol yn gysylltiedig â'r teithiau hyn a chydabyddir yn eang eu bod yn ysgogi newid yn yr hinsawdd drwy ryddhau allyriadau carbon (Olivier et al., 2011; McNamara et al., 2021). Mae polisiau masnach sy'n gysylltiedig â datblygu economaidd, mwy o drefoli a defnydd hefyd yn ffactorau allweddol i'w hystyried (Blanco et al., 2014).

Gall tywydd eithafol amharu ar lwybrau masnach, a gall polisiau i hyrwyddo iechyd hinsawdd da gael effeithiau negyddol ar fasnach (Tamiotti et al., 2009). Mae rhai sylwebyddion yn awgrymu bod llunwyr polisiau hinsawdd a masnach wedi gweithio mewn seilos am gyfnod rhy hir ac mae angen iddynt ddod yn fwy integredig a soffistigedig wrth lunio polisiau (Birkbeck a Denton, 2020). Mae'r tabl isod (Tabl 1) yn dangos pwy allai gael ei effeithio gan fasnach a Chytundebau Masnach Rydd a'r llwybrau effaith ar gyfer y grwpiau hyn. Mae hyn yn seiliedig ar y llenyddiaeth a'r dystiolaeth a gynhwysir yn yr HIAs a gynhaliwyd yn flaenorol.

**Tabl 1**

Thema Allweddol	Llwybrau Effaith	Grwpiau Poblogaeth yr effeithir arnynt:
Masnach a Chytundebau Masnach Rydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Newidiadau i statws cyflogaeth oherwydd: dirwasgiad economaidd; cost uwch mewnforion / allforion a thariffau; a Rhwystrau Technegol i Fasnach</li> <li>• Newidiadau i reoliadau symud pobl a mewnfudo</li> <li>• Newidiadau i reoliadau a safonau amgylcheddol</li> <li>• Newidiadau i fframweithiau rheoliadol a chyfreithiol</li> <li>• Rhwydweithiau cludiant a theithio</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y boblogaeth gyfan</li> <li>• Gweithwyr hanfodol</li> <li>• Pobl hŷn</li> <li>• Plant a Phobl Ifanc</li> <li>• Y rhai â chyflyrau iechyd presennol</li> <li>• Y rhai ar incwm isel</li> <li>• Y rhai mewn cyflogaeth yn ymwneud â mewnforio ac allforio nwyddau</li> </ul>





## 2 EFFAITH YR HER DRIPHLYG AR IECHYD, LLESIANT A THEGWCH

Dangosodd tystiolaeth yn yr HIAs ar gyfer Brexit, COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd fod yr Her Driphlyg wedi cael effaith sylweddol ar bobl Cymru. Mae'r effeithiau hyn yn digwydd drwy sawl llwybr a phenderfynydd iechyd, er enghraifft, y ffordd y mae'r heriau'n effeithio ar gyflogaeth, masnach a chytundebau masnach rydd, ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad iechyd fel yfed alcohol, diogelwch bwyd a llesiant meddyliol (Ffigur 3).

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu effeithiau posibl (a gwirioneddol lle y'u gwelwyd) uniongyrchol, mawr, cronol (cadarnhaol a negyddol) yr Her Driphlyg ar draws ystod o benderfynyddion a grwpiau poblogaeth sy'n agored i niwed.

Mae'r tabl cyntaf ym mhob adran yn mapio'r holl benderfynyddion hynny yr effeithir arnynt mewn perthynas â maes polisi a llwybrau effaith. Edrychir ar un enghraifft allweddol yn fanylach.<sup>1</sup>

**Ffigur 3: Penderfynyddion allweddol iechyd, llesiant a thegwch yr effeithir arnynt gan yr Her Driphlyg**



<sup>1</sup> Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at benderfynyddion a grwpiau poblogaeth y mae tair elfen yr Her Driphlyg yn effeithio arnynt yn nhabl yr adran. Cydnabyddir y gallai Brexit, COVID-19 a Newid yn yr Hinsawdd hefyd effeithio ar wahanol benderfynyddion a grwpiau poblogaeth fel heriau annibynnol unigol, ond nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

## 2.1 PENDERFYNYDD ALLWEDDOL - IECHYD

Thema Allweddol yr Effeithir arni gan yr Her Driphlyg	Llwybrau Effaith	Grwpiau Poblogaeth yr effeithir arnynt:
<p>Gofal Iechyd a Darparu Gwasanaeth, gan gynnwys modelau gweithio newydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Newidiadau i reoliadau symud pobl a mewnfudo.</li> <li>• Hawliau Gwladolion yr UE i fyw a gweithio yn y DU.</li> <li>• Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol.</li> <li>• Polisiau i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19 er enghraifft, aros gartref, cadw pellter cymdeithasol, gweithio gartref, cau rhai sectorau, tarfu ar addysg a gofal plant.</li> <li>• Perygl o farwolaeth ac afiachedd yn sgil y feirws COVID-19 / dim symptomau ac oedi mewn gofal.</li> <li>• Ffactorau'n ymwneud â llesiant meddyliol gan gynnwys gwytnwch, rheolaeth a chyfranogiad, ynysigrwydd cymdeithasol; straen a gorbryder; ansicrwydd ynghylch y dyfodol, ofn y feirws.</li> <li>• Mwy o risg y bydd lleoliadau, gweithluoedd a seilwaith, er enghraifft, amaethyddiaeth, trafndiaeth, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn profi tywydd eithafol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y boblogaeth gyfan</li> <li>• Y rhai ar incwm isel</li> <li>• Gweithwyr hanfodol</li> <li>• Pobl hŷn</li> <li>• Ardaloedd daearyddol</li> <li>• Y rhai â chyflyrau ac anghenion iechyd presennol</li> </ul>
<p>Diogelu Iechyd - deallusrwydd, tystiolaeth, ymchwil a datblygu</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llai o fynediad at fecanweithiau rhannu data, gwybodaeth a thystiolaeth.</li> <li>• Llai o fynediad at systemau iechyd y cyhoedd cydlynus allweddol.</li> <li>• Hawliau Gwladolion yr UE i fyw a gweithio yn y DU.</li> <li>• Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y boblogaeth gyfan</li> <li>• Y rhai ar incwm isel</li> <li>• Gweithwyr hanfodol</li> <li>• Pobl hŷn</li> <li>• Ardaloedd daearyddol</li> <li>• Y rhai â chyflyrau ac anghenion iechyd presennol</li> </ul>

<p>Ymddygiad iechyd gan gynnwys deiet, alcohol, ysmygu a gweithgaredd corfforol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol.</li> <li>• Dirwasgiad economaidd / colli cyflogaeth, chwyddiant a gostyngiad cysylltiedig mewn cyllid ar gyfer y sector cyhoeddus, seilwaith ac asedau cymunedol allweddol.</li> <li>• Ffactorau'n ymwneud â llesiant meddyliol gan gynnwys gwytnwch, rheolaeth a chyfranogiad, ynysigrwydd cymdeithasol; straen a gorbryder; ansicrwydd ynghylch y dyfodol.</li> <li>• Risg y bydd lleoliadau, gweithluoedd a seilwaith, er enghraifft, amaethyddiaeth, trafndiaeth, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn profi tywydd eithafol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y boblogaeth gyfan</li> <li>• Y rhai ar incwm isel</li> <li>• Y rhai â chyflyrau ac anghenion iechyd presennol</li> <li>• Dynion</li> </ul>
---	--	--



## Enghraifft o Dan y Chwyddwydr: Ymddygiad Iechyd - Alcohol

Cyn gadael yr UE, nododd Llywodraeth y DU y byddai'n cynnal yr un safonau uchel mewn perthynas â Chyfarwyddebau'r UE a deddfwriaeth sydd eisoes mewn grym (Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, 2018). Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ystyried newidiadau posibl ym mholisi'r llywodraeth yn y dyfodol, a allai gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol posibl ar ymddygiad iechyd. Gyda Brexit, gallai Cytundebau Masnach Rydd effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar allu gwlad i ddeddfu neu reoleiddio ar gyfer safonau a labelu cynnwys cryfach yn ymwneud ag alcohol, bwyd neu dybaco (Zeigler, 2008). Gall mwy o reoleiddio hefyd arwain at brisiau uwch (McNamara et al., 2021). Gallai Cytundebau Masnach Rydd arwain at heriau gan wneuthurwyr mewn perthynas â deddfau iechyd y cyhoedd ar gyfer labelu a phrisio, er enghraifft, Isafbris Uned. Bydd cwmnïau Cydwladol yn gallu herio'r rhain drwy nodi y byddant yn cyfyngu ar eu gallu i fasnachu'n ddirwystr (Zeigler, 2009).



Ochr yn ochr â'r effeithiau hyn, rhagwelodd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) y byddai cyfyngiadau symud yn ystod y pandemig COVID-19, o bosibl yn cynyddu'r defnydd o alcohol ac felly'n gwaethgu bregusrwydd iechyd, ymddygiad sy'n golygu cymryd risg, problemau iechyd meddwl a thrais, gan arwain at alcoholiaeth a dibyniaeth (Sefydliad Iechyd y Byd, 2020). Mae'r cynnydd hwn mewn lefelau yfed alcohol wedi'i nodi a'i adrodd yng Nghymru drwy Arolwg Ymgysylltu Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn ystod wythnos 3 y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud ym mis Ebrill 2020, adroddwyd bod cynnydd o 27% yn y defnydd o alcohol o'i gymharu â'r wythnos flaenorol. Flwyddyn yn ddiweddarach, nododd 18% o ymatebwyr eu bod yn yfed mwy o alcohol nag yr oeddent cyn y pandemig, sy'n cyfateb i oddeutu 445,000 o oedolion (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021a). Roedd y rhai mewn cymunedau llai cyfoethog a'r rhai 35-54 oed yn fwy tebygol o nodi eu bod yn yfed mwy nag o'r blaen (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021a). Ar ben hynny, bu cynnydd o 21% yn y marwolaethau yn sgil clefyd alcoholiaidd yr afu yn Lloegr yn ystod blwyddyn y pandemig, wedi'i gyflymu gan y ffaith bod pobl yn yfed mwy o alcohol yn ystod y cyfyngiadau symud (Public Health England, 2021). Yn Lloegr, adroddwyd cynnydd o 24.4% mewn gwerthiannau alcohol yn 2020-21 o'i gymharu â 2019-20 (Public Health England, 2021).

O ran newid yn yr hinsawdd ac alcohol, mae tystiolaeth yn tynnu sylw at y ffaith y gallai cynnydd mewn tymheredd a thywydd eithafol yn gysylltiedig â gwres arwain at yfed mwy o alcohol a chanlyniadau iechyd gwaeth (Cusack et al., 2011; Thompson, 2018). Gwelwyd bod perthynas rhwng amodau newid yn yr hinsawdd a'r defnydd cynyddol o gyffuriau neu alcohol fel dull ymdopi (Kabir, 2018), er bod astudiaeth arall wedi nodi cydberthynas negyddol rhwng tymheredd byd-eang cyfartalog ac yfed alcohol gyda thymheredd oerach yn arwain at yfed mwy o alcohol a mwy o achosion o sirosis yr afu (Ventura-Cots et al., 2018). Mae hwn yn faes ble mae angen rhagor o ymchwil.

Mae cynhyrchu cynhyrchion alcohol fel cwrw yn cael effaith ar ynni, iechyd a'r amgylchedd (Garnett, 2007; Amienyo ac Azapagic, 2016) ond felly hefyd labelu, cludo ac yfed. Edrychodd papur o Sweden (Hallstrom et al., 2018) ar y nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir yn sgil y ffaith bod y boblogaeth yn yfed alcohol. Noda y bydd yfed mwy o alcohol yn arwain at gynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig ag alcohol oherwydd ffactorau fel y dull cynhyrchu er enghraifft, distyllu, y math o gynnyrch a'r deunydd pacio. Roedd dynion yn cynhyrchu 90% yn fwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr na menywod oherwydd y cynhyrchion alcohol yr oeddent yn eu hyfed (gwin a chwrw cryf yn bennaf) a'u dulliau cynhyrchu a phecynnu. Roedd y canlyniadau'n dangos bod yfed alcohol, ar gyfartaledd, yn cynhyrchu 3% o gyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â deiet, ac mewn is-boblogaethau a oedd â chyfraddau yfed uchel roedd hyn rhwng 6–11%.

## 2.2 PENDERFYNFYDD ALLWEDDOL - FFACTORAU CYMDEITHASOL A CHYMUNEDOL

Thema Allweddol yr Effeithir arni gan yr Her Driphlyg	Llwybrau Effaith	Grwpiau Poblogaeth yr effeithir arnynt:
Symudiad cymdeithasol a chyfranogiad dinasyddion	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Newidiadau i reoliadau symud pobl a mewnfudo.</li> <li>• Hawliau Gwladolion yr UE i fyw a gweithio yn y DU (heb eu datganoli).</li> <li>• Polisiâu i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19 er enghraifft, aros gartref, cadw pellter cymdeithasol, gweithio gartref, cau rhai sectorau, tarfu ar addysg a gofal plant.</li> <li>• Perygl o farwolaeth ac afiachedd yn sgil y feirws COVID-19 / dim symptomau ac oedi gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.</li> <li>• Ffactorau'n ymwneud â llesiant meddyliol gan gynnwys gwytnwch, rheolaeth a chyfranogiad, ynysigrwydd cymdeithasol; straen a gorbryder; ansicrwydd ynghylch y dyfodol, ofn y feirws.</li> <li>• Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol (wedi'u datganoli a heb eu datganoli).</li> <li>• Risg y bydd lleoliadau, gweithluoedd a seilwaith, er enghraifft, amaethyddiaeth, trafndiaeth, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn profi tywydd eithafol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y boblogaeth gyfan</li> <li>• Ardaloedd daearyddol</li> <li>• Plant ac oedolion ifanc</li> <li>• Pobl hŷn</li> <li>• Y rhai ar incwm isel</li> <li>• Y rhai sy'n ddi-waith</li> <li>• Ffermwyr a physgotwyr</li> <li>• Y rhai â chyflyrau ac anghenion iechyd presennol.</li> </ul>

<p>Y gwahaniaethau rhwng cenedlaethau a gwrthdaro cymdeithasol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dirwasgiad economaidd / colli cyflogaeth, chwyddiant a gostyngiad cysylltiedig mewn cyllid ar gyfer y sector cyhoeddus, seilwaith ac asedau cymunedol allweddol.</li> <li>• Ffactorau'n ymwneud â llesiant meddyliol gan gynnwys gwytnwch, rheolaeth a chyfranogiad, ynysigrwydd cymdeithasol; straen a gorbryder; ansicrwydd ynghylch y dyfodol.</li> <li>• Hawliau Gwladolion yr UE i fyw a gweithio yn y DU (heb eu datganoli).</li> <li>• Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol (wedi'u datganoli a heb eu datganoli).</li> <li>• Y ffaith nad yw Dinasyddion y DU bellach yn ddinasyddion yr UE (heb ei ddatganoli).</li> <li>• Polisiâu i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19 er enghraifft, aros gartref, cadw pellter cymdeithasol, gweithio gartref, cau rhai sectorau, tarfu ar addysg a gofal plant.</li> <li>• Perygl o farwolaeth ac afiachedd yn sgil y feirws COVID-19 / dim symptomau ac oedi mewn gofal.</li> <li>• Risg y bydd lleoliadau, gweithluoedd a seilwaith, er enghraifft, amaethyddiaeth, trafndiaeth, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn profi tywydd eithafol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y boblogaeth gyfan</li> <li>• Plant ac oedolion ifanc</li> <li>• Pobl hŷn</li> </ul>
--	--	---

## Enghraifft o dan y chwyddwydr: Y gwahaniaethau rhwng cenedlaethau gan gynnwys cyfiawnder a gwrthdaro cymdeithasol

Datgelodd y pandemig COVID-19 wahaniaethau rhwng cenedlaethau ym mhatrymau afiachedd a marwolaeth, ond hefyd yn y ffyrdd yr ymatebodd cenedlaethau i'r pandemig ledled Cymru a'r DU. Effeithiodd y feirws yn bennaf ar bobl hŷn yn y tonnau cyntaf cyn y brechiadau ac arweiniodd at lefelau uwch o afiachedd a marwolaethau yn y grwpiau oedran hŷn hyn (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020a). Mae'r rhai dros 70 oed yn fwy tebygol o gael eu derbyn i'r ysbyty os ydynt yn cael COVID-19 ac mae mwyafrif y rhai sy'n marw o ganlyniad i'r feirws yn y grŵp oedran hwn (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020b).

Er ei bod yn ymddangos nad oedd y feirws yn effeithio'n gorfforol ar blant a phobl ifanc, erbyn canol 2021 roedd yr ystodau oedran a heintwyd gan y feirws yn dod yn iau ac yn iau wrth i oedolion hŷn gael eu brechu (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020b). Er bod nifer y

marwolaethau yn y grwpiau oedran iau yn parhau i fod yn hynod isel, mae COVID-19 wedi cael effaith ehangach ar y grwpiau oedran hyn y tu hwnt i'w hiechyd corfforol, er enghraifft drwy aflonyddu ar eu haddysg a cholli cyswllt cymdeithasol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b). Effeithiwyd yn economaidd ar haenau mawr o bobl ifanc hefyd wrth i'r sectorau a oedd yn cyflogi'r gyfran fwyaf ohonynt yng Nghymru er enghraifft, manwerthu nad yw'n hanfodol a lletygarwch, gau dros dro (Joyce a Xu, 2020; Gould a Kassa, 2020; Winding et al., 2021). Ar ddiwedd 2020, roedd diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn 10.9% o'i gymharu â diweithdra o 4.4% a adroddwyd ar gyfer Cymru gyfan (Llywodraeth Cymru, 2021i). I lawer o deuluoedd a chymunedau, roedd effeithiau'r feirws yn rhychwantu'r cenedlaethau. Fodd bynnag, mae rhai sylwebyddion wedi nodi bod y genhedlaeth iau wedi aberthu ei rhyddid er mwyn amddiffyn pobl hŷn (Kornwitz, 2021).

Hefyd, roedd gwahaniaethau rhwng ymatebion y cenedlaethau i Brexit. Mae'r ystadegau'n dangos bod gwahaniaethau cyson mewn patrymau pleidleisio ar draws y boblogaeth mewn perthynas ag aros yn yr UE neu adael (Moore, 2016). Roedd pleidleiswyr hŷn yn tueddu i bleidleisio i adael yr UE tra bod y grwpiau demograffig iau yn tueddu i bleidleisio i aros. Mae cyfranogiad gwleidyddol ac ymdeimlad o reolaeth (neu beidio) i gyd yn benderfynyddion iechyd a llesiant a gall gwahaniaethau pleidleisio ymysg cymunedau a theuluoedd arwain at wrthdaro (Eriksson, 2011). Roedd gwahaniaethau hefyd mewn patrymau pleidleisio rhwng dosbarthiadau cymdeithasol (Finlay et al., 2020). Yn y dyfodol, gallai pobl iau hefyd gael eu heffeithio gan Brexit, er enghraifft oherwydd mynediad at gyfleoedd addysgol yn yr UE megis rhaglen astudio ERASMUS, newidiadau mewn cyflogaeth, a llai o gyfleoedd yn y dyfodol yn sgil unrhyw ddirywiad economaidd wedi'i ddylanwadu gan Brexit. Gallai pobl hŷn gael eu heffeithio gan yr heriau sy'n codi wrth recriwtio a chadw gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu cymorth a gofal iddynt a allai gael eu hachosi gan newidiadau i'r rheol mewn fudo (AgeUK, 2020; Dayan et al., 2020; Cydffederasiwn y GIG, 2019). Fodd bynnag, gallai fod cyfleoedd hefyd i aros yn y gweithlu am gyfnod hwy (pe byddent yn dewis gwneud hynny) yn sgil bwlch mewn rhai gweithluoedd a grëwyd yn sgil preswylwyr yr UE nad ydynt yn breswylwyr yn y DU yn symud o Gymru (Centre for Ageing Better, 2020).

Bydd y newid yn yr hinsawdd a thywydd eithafol yn cael effaith fawr ar genedlaethau'r dyfodol o ran gallu cael gafael ar yr adnoddau naturiol y bydd eu hangen arnynt a chael sefydlogrwydd hinsawdd a fydd yn eu galluogi i oroesi yn yr hirdymor. Mae'r rhain yn cael eu cynrychioli fel mater o gyfiawnder rhwng y cenedlaethau gan rai sylwebyddion (Skillington, 2021; Sanson a Burke, 2020). Mae'n rhagdybiaeth gyffredin bod gan bobl ifanc a phobl hŷn safbwyntiau tra gwahanol ar newid yn yr hinsawdd oherwydd gwahanol brofiadau sy'n arwain at wahanol ysgogwyr a strwythur cyfeirio (Swim et al., 2011). Fodd bynnag, awgrymodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 mai dim ond gwahaniaethau bach oedd yn y lefelau pryder ar draws ystodau oedran mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd (Cynulliad Cyffredinol y Cenedlaethol Unedig, 2013; Ystadegau ar gyfer Cymru, 2019a; Sanson a Burke, 2020). Mae pobl ifanc yng Nghymru wedi ymgynnull i brotestio yn erbyn newid yn yr hinsawdd a'r effaith y bydd hyn yn ei chael arnynt nhw a chenedlaethau'r dyfodol er mwyn tynnu sylw at yr angen i weithredu nawr (Cynghres Undebau Llafur Cymru, 2019). Mae nifer cynyddol o bobl ifanc yn ymgyrchu dros yr hinsawdd, y mae rhai ohonynt yn defnyddio'r gyfraith i ddwyn gwladwriaethau atebol i gyfrif am golli'r hawl i iechyd a 'Hawliau'r Plentyn' (Skillington 2021; Sanson a Burke, 2020).

Mae diddordeb cynyddol hefyd mewn deiet sy'n gyfeillgar i'r blaned a all hefyd arwain at gydfanteision i iechyd (Willett et al., 2019), ac mae cynnydd yn y rhai sy'n nodi eu bod yn fegan mewn grwpiau oedran iau (Chiorando, 2021; The Vegan Society, 2020). Amlygodd arolwg yn 2019 fod ystodau oedran iau yn fwy tebygol o nodi eu bod yn fegan na phobl hŷn (Wunsch, 2020) gyda'r lefelau uchaf yn yr ystod oedran 18-34. Cafwyd canlyniadau tebyg yn adroddiad 'Bwyd a Chi' yr Asiantaeth Safonau Bwyd o'r un flwyddyn (Asiantaeth Safonau Bwyd, 2019) gyda llawer yn nodi eu bod yn fegan neu'n llysiuwyd am resymau'n ymwneud ag iechyd, yr amgylchedd neu les anifeiliaid (Vegan Food and Living, 2019).

## 2.3 PENDERFYNYDD ALLWEDDOL - LLESIANT MEDDYLIOL

Thema Allweddol yr Effeithir arni gan yr Her Driphlyg	Llwybrau Effaith	Grwpiau Poblogaeth yr effeithir arnynt:
Straen a gorbryder yn ymwneud ag ansicrwydd ynghylch y dyfodol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Newidiadau i reoliadau symud pobl a mewnfudo.</li> <li>Hawliau Gwladolion yr UE i fyw a gweithio yn y DU.</li> <li>Ffactorau'n ymwneud â llesiant meddyliol gan gynnwys gwytnwch, rheolaeth a chyfranogiad, ynysigrwydd cymdeithasol; straen a gorbryder; ansicrwydd ynghylch y dyfodol, ofn y feirws.</li> <li>Y ffaith nad yw Dinasyddion y DU bellach yn ddinasyddion yr UE.</li> <li>Perygl o farwolaeth ac afiachedd yn sgil y feirws COVID-19 / dim symptomau ac oedi mewn gofal.</li> <li>Polisiâu i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19 er enghraifft, aros gartref, cadw pellter cymdeithasol, gweithio gartref, cau rhai sectorau, tarfu ar addysg a gofal plant.</li> <li>Risg y bydd lleoliadau, gweithluoedd a seilwaith, er enghraifft, amaethyddiaeth, trafniadaeth, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn profi tywydd eithafol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Y boblogaeth gyfan</li> <li>Y rhai â chyflyrau ac anghenion iechyd presennol</li> <li>Plant ac oedolion ifanc</li> <li>Pobl hŷn</li> <li>Gweithwyr hanfodol</li> <li>Y rhai sy'n ddi-waith</li> <li>Y rhai ar incwm isel</li> <li>Mewnfudwyr a'u teuluoedd</li> <li>Teuluoedd un rhiant</li> </ul>

### Enghraifft o dan y chwyddwydr:

#### Straen a gorbryder yn ymwneud ag ansicrwydd ynghylch y dyfodol

Mae'r Her Driphlyg yn cael effeithiau anuniongyrchol ac uniongyrchol ar lesiant meddyliol. Priodolir hyn i fwy o bryder, straen ac ansicrwydd nid yn unig am iechyd a llesiant ond am y dyfodol. Tair nodwedd amddiffynnol llesiant meddyliol yw ymdeimlad o reolaeth, cyfranogiad a gwytnwch (Coggins et al., 2011). Mae rheolaeth (neu ddiffyg rheolaeth) yn ffactor allweddol o ran digwyddiadau anarferol fel Brexit neu mewn argyfyngau fel tywydd annisgwyl sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd neu bandemig fel COVID-19.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi bod yn hollgynhwysol o ran ei faint a'i gwmpas, ac mae'n parhau i gael effaith mewn ffyrdd sy'n golygu nad yw'r llwybr tuag at adferiad yn y dyfodol yn ddidrafferth nac yn sicr. Mae hyn yn arbennig o wir am y feirws ei hun - gydag ymddangosiad Amrywiolion sy'n Peri Pryder neu Fwtaniad (VOCM) fel yr amrywiolyn Delta yn 2021 (Sefydliad



Iechyd y Byd, 2021; a Llywodraeth Cymru, 2021b) - ond hefyd o ran adferiad economaidd, addysgol a chymdeithasol y genedl, a'r effeithiau y gallai hyn eu cael, er enghraifft, ar gyflogaeth, lefelau incwm ac anghydraddoldebau. Amlygodd adolygiad llenyddiaeth diweddar a gyhoeddwyd yng Nghymru effeithiau'r pandemig ar lesiant meddyliol babanod, plant a phobl ifanc a'r effaith wahaniaethol ar grwpiau yn y garfan hon er enghraifft, y rhai o deuluoedd ag incwm isel o gymharu â theuluoedd mwy cyfoethog a rhwng ystodau oedran hŷn ac oedran iau (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021a). Nodwyd, er bod rhai pethau cadarnhaol yn deillio o gyfnod y pandemig, er enghraifft, treulio amser gyda'r teulu a rhyddhad oddi wrth bwysau cymdeithasol a bwlio, roedd yr effaith yn negyddol dros ben gan gynnwys mwy o straen a phryder am eu haddysg, eu dyfodol ac effaith dal COVID-19.

Dengys gwaith ymchwil mai menywod â phlant (yn enwedig menywod llai addysgedig) ac oedolion iau oedd fwyaf mewn perygl o ddioddef yn feddyliol ac yn seicolegol yn sgil cwarantîn neu hunanynysu (Brooks et al., 2020). Yn ogystal, canfuwyd bod pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed yn pryderu fwyaf am gael eu gwahanu oddi wrth ffrindiau a theulu pe bai'n rhaid iddynt hunanynysu (Y Sefydliad Iechyd Meddwl, 2020b). Nododd Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod Wythnos 3 o'r cyfyngiadau symud cyntaf yn sgil COVID-19 fod 56% yn 'weddol bryderus' neu'n 'bryderus iawn' am gael COVID-19, ac arhosodd canfyddiadau'r arolwg dilynol yn gymharol ddigyfnewid tan ddechrau mis Mawrth 2021 (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2020). Ym mis Ionawr 2021 (wythnos 40), nododd 42% o'r cyfranogwyr fod eu hiechyd a'u llesiant meddyliol yn waeth na chyn y pandemig, sy'n cyfateb i oddeutu 1,055,000 o oedolion, gyda menywod ac oedolion iau yn fwy tebygol o nodi iechyd meddwl gwaeth (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021c).

Mae gan Brexit lwybr yr un mor ansicr yn y dyfodol o ran ei effaith ar yr economi, swyddi, symudiad pobl a materion yn gysylltiedig â'r gweithlu, a chynnwys a natur Cytundebau Masnach Rydd yn y dyfodol. Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu wedi'i lofnodi ond mae llawer mwy i'w negodi gan gynnwys Cytundeb Masnach Rydd gyda'r Unol Daleithiau - sydd â safbwyntiau a safonau gwahanol ynghylch llesiant anifeiliaid a rheoliadau bwyd. Mae ansicrwydd yn sgil Brexit hefyd wedi achosi gorbryder a straen ymhlith cymunedau ffermio a physgota yng Nghymru a fydd yn cael effaith negyddol ar iechyd a llesiant meddyliol (Homolova et al., 2020).

Gall newid yn yr hinsawdd arwain at ystod eang o effeithiau ar iechyd a llesiant meddyliol gan gynnwys iselder ysbryd, gorbryder a hunanladdiad (Palinkas a Wong, 2020) ac anhwylder straen wedi trawma (Hrabok et al., 2020). Gall newid yn yr hinsawdd a'r ansicrwydd a achosir gan y risg bosibl o ddod i gysylltiad â thywydd eithafol er enghraifft, llifogydd, ysgogi gorbryder a straen ymysg y boblogaeth (IPCC, 2012; Cianconi et al., 2020). I rai grwpiau'r boblogaeth fel pobl ifanc, mae tystiolaeth i awgrymu y gall yr ansicrwydd hwn ynghylch y dyfodol a sut y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnyn nhw a'r byd (Sanson et al., 2018) arwain at bryder, ansicrwydd a thrallod, mwy o ymddygiad ymosodol a thrais, neu gyfraddau hunanladdiad uwch (Sanson et al., 2019).

Gall y ffaith bod rhagamcanion newid yn yr hinsawdd yn amrywio waethygu hyn. Mae yna fodolau amrywiol sy'n awgrymu cynnydd mewn tymheredd, ond mae ansicrwydd ynghylch maint y newid yn dibynnu ar sut yr eir i'r afael â newid yn yr hinsawdd (Y Swyddfa Dywydd, 2021; Brown, 2020) ac aethpwyd i'r afael ag ymddygiad ac allyriadau'r gorffennol. Bydd llifogydd yn dod yn ffenomena mwy cyffredin yng Nghymru yn ogystal â gwres eithafol (CCRA, 2021). Gall ymwybyddiaeth cymunedau lleol o effeithiau negyddol newid yn yr hinsawdd fod yn gryf, a all effeithio ar iechyd meddwl ar lefel y boblogaeth (Cianconi et al., 2020). Effeithir yn fwy ar rai cymunedau nag eraill a bydd yn rhaid i gyrff cyhoeddus, timau lleol a'r boblogaeth fynd i'r afael â hyn. Mae meithrin gwytnwch yn lliniarydd allweddol ar gyfer hyn ynghyd â pholisïau addasu ac arferion mwy cynaliadwy sy'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r amgylchedd ac i lesiant (Banc y Byd, 2020; a Stevens et al., 2020).



## 2.4 PENDERFYNYDD ALLWEDDOL - YR AMGYLCHEDD

Thema Allweddol yr Effeithir arni gan yr Her Driphlyg	Llwybrau Effaith	Grwpiau Poblogaeth yr effeithir arnynt:
Polisiâu a rheoliadau amgylcheddol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol.</li> <li>• Newid safonau rheoleiddio a fframweithiau cyfreithiol</li> <li>• Dirwasgiad economaidd / colli cyflogaeth, chwyddiant a gostyngiad cysylltiedig mewn cyllid ar gyfer y sector cyhoeddus, seilwaith ac asedau cymunedol allweddol.</li> <li>• Gadael y farchnad sengl a / neu'r undeb tollau.</li> <li>• Gwahaniaethau rheoliadol sy'n cynyddu gofynion tollau ar ffiniau.</li> <li>• Hawliau Gwladolion yr UE i fyw a gweithio yn y DU h.y. mae llawer o Swyddogion Ardystio Milfeddygol lladd-dai yn ddinasyddion o'r UE nad ydynt yn ddinasyddion y DU.</li> <li>• Polisiâu i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19 er enghraifft, aros gartref, cadw pellter cymdeithasol, gweithio gartref, cau rhai sectorau, tarfu ar addysg a gofal plant.</li> <li>• Mwy o risg y bydd lleoliadau, gweithluoedd a seilwaith, er enghraifft, amaethyddiaeth, trafndiaeth, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn profi tywydd eithafol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y boblogaeth gyfan</li> <li>• Plant ac oedolion ifanc</li> <li>• Y rhai ar incwm isel</li> <li>• Y rhai â chyflyrau ac anghenion iechyd presennol</li> </ul>

<p>Trafnidiaeth a Theithio Llesol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisiâu i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19 er enghraifft, aros gartref, cadw pellter cymdeithasol, gweithio gartref, cau rhai sectorau, tarfu ar addysg a gofal plant.</li> <li>• Dirwasgiad economaidd / colli cyflogaeth, chwyddiant a gostyngiad cysylltiedig mewn cyllid ar gyfer y sector cyhoeddus, seilwaith ac asedau cymunedol allweddol.</li> <li>• Newid safonau rheoleiddio a fframweithiau cyfreithiol</li> <li>• Gwahaniaethau rheoliadol sy'n cynyddu gofynion tollau ar ffiniau.</li> <li>• Gadael y farchnad sengl a / neu'r undeb tollau.</li> <li>• Mwy o risg y bydd lleoliadau, gweithluoedd a seilwaith, er enghraifft, amaethyddiaeth, trafndiaeth, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn profi tywydd eithafol.</li> <li>• Perygl o farwolaeth ac afiachedd yn sgil y feirws COVID-19 / dim symptomau ac oedi gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y boblogaeth gyfan</li> <li>• Gweithwyr hanfodol gan gynnwys gyrwyr danfon nwyddau a gyrwyr cerbydau nwyddau trwm.</li> <li>• Ardaloedd daearyddol gan gynnwys ardaloedd twristiaeth a threfi porthladd</li> <li>• Ffermwyr</li> <li>• Y rhai ar incwm isel</li> <li>• Y rhai mewn cyflogaeth sy'n agored iawn i effeithiau Brexit, newid yn yr hinsawdd a COVID-19</li> </ul>
<p>Symudiad y boblogaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol.</li> <li>• Hawliau Gwladolion yr UE i fyw a gweithio yn y DU.</li> <li>• Dadleoli'r boblogaeth, colli'r rhyddid i symud a newidiadau i bolisiâu mewnffudo.</li> <li>• Dirwasgiad economaidd / colli cyflogaeth, chwyddiant a gostyngiad cysylltiedig mewn cyllid ar gyfer y sector cyhoeddus, seilwaith ac asedau cymunedol allweddol.</li> <li>• Mwy o risg y bydd lleoliadau, gweithluoedd a seilwaith, er enghraifft, amaethyddiaeth, trafndiaeth, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn profi tywydd eithafol.</li> <li>• Polisiâu i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19 er enghraifft, aros gartref, cadw pellter cymdeithasol, gweithio gartref, cau rhai sectorau, tarfu ar addysg a gofal plant.</li> <li>• Ffactorau'n ymwneud â llesiant meddyliol gan gynnwys gwytnwch, rheolaeth a chyfranogiad, ynysigrwydd cymdeithasol; straen a gorbryder; ansicrwydd ynghylch y dyfodol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y boblogaeth gyfan</li> <li>• Mewnffudwyr a'u teuluoedd</li> <li>• Y rhai â chyflyrau ac anghenion iechyd presennol</li> <li>• Y rhai ar incwm isel</li> <li>• Oedolion ifanc</li> <li>• Pobl hŷn</li> <li>• Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig</li> </ul>

<p>Diogelu'r cyflenwad bwyd, gan gynnwys argaeledd, hygyrchedd a defnydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol.</li> <li>• Hawliau Gwladolion yr UE i fyw a gweithio yn y DU.</li> <li>• Dadleoli'r boblogaeth, colli rhyddid i symud a newidiadau i bolisiau mewnfudo (heb eu datganoli).</li> <li>• Dirwasgiad economaidd / colli cyflogaeth, chwyddiant a gostyngiad cysylltiedig mewn cyllid ar gyfer y sector cyhoeddus, seilwaith ac asedau cymunedol allweddol.</li> <li>• Mwy o risg y bydd lleoliadau, gweithluoedd a seilwaith, er enghraifft, amaethyddiaeth, trafndiaeth, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn profi tywydd eithafol.</li> <li>• Polisiâu i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19 er enghraifft, aros gartref, cadw pellter cymdeithasol, gweithio gartref, cau rhai sectorau, tarfu ar addysg a gofal plant.</li> <li>• Ffactorau'n ymwneud â llesiant meddyliol gan gynnwys gwytnwch, rheolaeth a chyfranogiad, ynysigrwydd cymdeithasol; straen a gorbryder; ansicrwydd ynghylch y dyfodol.</li> <li>• Newid safonau rheoleiddio a fframweithiau cyfreithiol</li> <li>• Gadael y farchnad sengl a / neu'r undeb tollau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y boblogaeth gyfan</li> <li>• Y rhai ar incwm isel</li> <li>• Y boblogaeth gyfan</li> <li>• Plant ac oedolion ifanc</li> <li>• Ffermwyr a physgotwyr</li> <li>• Gweithwyr amaethyddol</li> </ul>
--	---	---



## Enghraifft o dan y chwyddwydr: Trafnidiaeth a Theithio Llesol

---

Yn ystod ton gyntaf y pandemig COVID-19, ychydig iawn o deithio a ganiatawyd yng Nghymru gan fod gofyn i'r boblogaeth aros gartref oni bai am 'deithiau hanfodol' (Llywodraeth Cymru, 2020b). Yn sgil cyflwyno cyfyngiadau symud radical ledled y byd, dangoswyd bod modd cymhwyso datgarboneiddio yn gyflym iawn gan arwain at well ansawdd aer, llai o draffig cerbydau a theithio mewn awyrennau, llai o sŵn a llygredd, sydd i gyd yn cyfrannu at adnewyddu iechyd yr hinsawdd a'r blaned (NASA, 2020; Brunt, 2020). Cyfrannodd y gostyngiad mewn teithio yn ystod y pandemig at lai o allyriadau a gwell ansawdd aer mewn rhai rhannau o Gymru a'r DU (Brunt, 2020; Ricardo Energy and Environment, 2020; Ansawdd Aer Cymru, 2021; Jephcote et al., 2021; Jones, 2021; Yr Adran Drafndiaeth, 2021).

Mae'r pandemig yn rhoi cyfle i fyfyrion a chanolbwyntio o'r newydd ar leihau ôl troed carbon pobl a chreu cydfanteision i iechyd a'r economi - er enghraifft drwy hyrwyddo datblygiad economaidd drwy annog 'gwyliau gartref' ledled Cymru. Fodd bynnag, gallai hyn gael effaith negyddol anfwriadol o ran cynyddu nifer y ceir a'r cartrefi modur ar ffyrdd Cymru wrth i bobl deithio i'w cyrchfan mewn car gan eu bod yn teimlo'n fwy diogel rhag COVID-19 ynddynt (RAC, 2021). Ar yr un pryd, mae'r newid cyflym i siopa ar-lein, neu'r cynnydd mewn siopa ar-lein, hefyd wedi cyfrannu at gynnydd yn niferoedd y gyrwyr danfon nwyddau sy'n defnyddio'r ffyrdd yng Nghymru, ac felly hefyd atal y mesurau i gyfyngu ar gerbydau yng nghanol trefi yng Nghymru er mwyn galluogi pobl i gadw pellter cymdeithasol (Cyngor Dinas Caerdydd, 2021). Mae tystiolaeth yn awgrymu, erbyn mis Mehefin 2021, bod symudiadau cerbydau ar y ffyrdd yn dychwelyd i'r un lefelau ag yr oeddent cyn y pandemig, sy'n golygu y bydd unrhyw fanteision i iechyd a'r amgylchedd yn rhai byrhoedlog a thros dro (Neill, 2021; RAC Foundation, 2021).

Cafodd teithio llesol ei annog i bawb yn ystod (a chyn) y pandemig - yn enwedig y rhai a oedd yn gweithio fel gweithwyr hanfodol a oedd angen cymudo i'r gwaith - a pharheir i wneud hynny. Fe wnaeth dinasoedd a threfi yng Nghymru a'r DU alluogi hyn gyda llwybrau beicio a rhodfeydd mwy gweladwy gyda lle i gadw pellter cymdeithasol (Teuton et al., 2020a). Fodd bynnag, gall hyn fod yn fwy heriol i gymunedau mwy gwledig. Gall teithio llesol wella llesiant corfforol a meddyliol (Sustrans, 2017; Mouratidis, 2019) ac arwain at lai o allyriadau drwy ddewis dulliau teithio amgen. Mae Llywodraeth Cymru wedi hyrwyddo teithio llesol yn gadarnhaol drwy Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) ac yn 2021 cyhoeddodd £38 miliwn o gyllid i gefnogi cynlluniau teithio llesol yng Nghymru. Parhaodd gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus i weithredu yn ystod COVID-19, ond roedd llai o deithwyr a allai fod â goblygiadau i gynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau (Sung a Monschauer, 2021). Nid yw hyn yn unigryw i Gymru ac fe'i gwelwyd mewn gwledydd eraill yn y DU (Teuton et al., 2020b). Ym mis Chwefror 2021, cymerodd Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb dros weithrediadau Trafnidiaeth Cymru fel ffordd o gynnal gwasanaethau i weithwyr hanfodol a'r rhai yr oedd angen eu defnyddio i gael mynediad at wasanaethau a theithiau hanfodol dynodedig eraill (Green et al., 2019; Jones, 2021).

Gellid hefyd hwyluso mwy o deithio llesol a mwy o weithgaredd corfforol er mwyn creu manteision iechyd o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd a thymheredd uwch yn y DU a gallai hefyd fod yn fesur lliniaru pwysig i leihau cynhesu byd-eang ynddo'i hun (Brand et al., 2021). Gallai hyn arwain at gydfanteision i iechyd, cymdeithas, a'r amgylchedd yn ogystal â helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau (Rissel, 2009; Brand et al., 2021; Hoegh-Guldberg et al., 2018).

Teimlwyd effaith y newid yn yr hinsawdd hefyd yn ystod cyfnod y pandemig a chyn ac ar ôl ymadawiad y DU o'r UE. Mae llifogydd, mwy o wlybaniaeth, gwres eithafol a mathau eraill o

dywydd eithafol yn risgiau i wasanaethau trafndiaeth, gan gynnwys trafndiaeth ar y ffyrdd, y rheilffyrdd, danddaear, yn yr awyr, ar y môr a phiblinell (WHO, 2018; IPCC, 2018). Amlygodd un astudiaeth y byddai senario cynhesu 4°C yn golygu y byddai 2,400 km o rwydwaith rheilffyrdd y DU mewn perygl o ddioddef llifogydd, gan godi 120% erbyn 2080 (CCRA, 2021).

Effeithiwyd yn fawr ar lawer o brif lwybrau trafndiaeth Cymru gan gynnwys cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd a seilwaith. Cyfrannodd tywydd garw fel llifogydd yn 2019, 2020 a 2021 a gwres eithafol yn toddi rhai llinellau rheilffordd yn 2019 at aflonyddu ar rwydweithiau trafndiaeth a bywydau beunyddiol pobl gan gynnwys gallu cael gafaer ar wasanaethau a chymudo i'r gwaith. Mae tywydd poeth yn peri risg i seilwaith trafndiaeth, a gall arwain at draciau rheilffordd yn ysigo, difrod i ffyrdd a methiant goleuadau traffig (Zuo et al., 2015). Mae rheilffyrdd yn arbennig o agored i ddioddef yn sgil gwres eithafol a disgwylir i'r achosion o draciau rheilffyrdd yn ysigo fod bedair gwaith yn uwch o dan senario lle ceir newid bach yn yr hinsawdd a phum gwaith yn uwch mewn senario lle ceir newid mawr yn yr hinsawdd (CCRA, 2021). Mae tymheredd uchel hefyd yn effeithio ar yr y gwaith cynnal a chadw y gellir ei wneud, er enghraifft, mae'n anodd tynhau trac rheilffordd oherwydd ehangu thermol, ac mae tarmac ffyrdd yn sychu'n rhy gyflym mewn tymheredd uchel (CCRA, 2021). Yn ogystal, mae gorboethi ar drafnidiaeth gyhoeddus y DU yn debygol o gynyddu, gan gael effeithiau andwyol ar iechyd a llesiant teithwyr (CCRA, 2021). Ardaloedd trefol sydd fwyaf mewn perygl o ddioddef effeithiau andwyol ar gysur ac iechyd cymudwyr, oherwydd tymheredd uwch ar drafnidiaeth gyhoeddus (CCRA, 2021). Mae ardaloedd arfordirol yn arbennig mewn perygl o ddioddef difrod ac aflonyddwch i seilwaith trafndiaeth oherwydd llifogydd a stormydd (Veenema, 2017; CCRA, 2021). Mae gan Gymru ddarnau hir o ffyrdd a rheilffyrdd wrth ymyl y draethlin, yn enwedig yn y gogledd a'r gorllewin, sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd yn sgil y ffaith bod lefel y môr yn codi (CCRA, 2021).

Mae lleihad mewn hediadau a symudiad pobl oherwydd y pandemig COVID-19 wedi effeithio ar yr amgylchedd, y diwydiant hedfan a'i weithlu mewn sawl ffordd (International Finance Corporation, 2020; Statista, 2021b). Fodd bynnag, mae'r gweithlu hwn yn fach o ran nifer yng Nghymru. Gwelwyd mwy o effaith ar borthladdoedd Cymru gyda chysylltiadau allweddol ag Iwerddon a'r DU ac fel llwybr i dir mawr Ewrop.

Mae Brexit wedi arwain at leihad mewn symudiad pobl ac mae trafndiaeth wedi cael ei effeithio. Er enghraifft, adroddwyd bod oedi mewn porthladdoedd a meysydd awyr ar gyfer cerbydau nwyddau trwm oherwydd y cynnydd mewn gwaith papur sydd wedi dod law yn llaw ag ymadawiad y DU o'r UE (Johnson et al., 2021). Yng Nghymru, amharwyd ar y porthladdoedd hynny sy'n gysylltiadau hanfodol ag Iwerddon ac yn union cyn Brexit gwelsant ymchwydd sylweddol mewn traffig ac yna ostyngiad sylweddol ar ôl ymadael â'r UE - ond mae hyn yn gwastatau yn araf (Potter, 2021). Mae porthladdoedd y Sianel a Chymru yn bwysig, er enghraifft, maent yn llwybr cludo pwysig ar gyfer bwyd anifeiliaid a chynhyrchion bwyd i'r DU (Carter, 2019). Yn ogystal, mae'r ffaith bod lefel y môr yn codi yn risg i borthladdoedd, sy'n derbyn 95% o fewnforion ac allforion y DU (Llywodraeth Cymru, 2019b). Ar yr ochr gadarnhaol, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu cynllun pum pwynt i gefnogi porthladdoedd Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021o).

Rhaid nodi bod y mater hwn yn gymhleth. Gallai fod effeithiau sy'n gwaethygu neu'n drysu'r sefyllfa yn sgil rheoliadau COVID-19 a newidiadau i reolau yn sgil Brexit ynghylch mewnforio ac allforio nwyddau a gwasanaethau i'r UE. Gwelir enghreifftiau o oedi gyda chynnyrch, er enghraifft, deunyddiau adeiladu. Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd y cynnydd yn y galw wrth i bobl ganolbwyntio ar uwchraddio neu adnewyddu eu cartrefi a'u gardd yn ystod y cyfyngiadau symud neu'r gwaith papur ychwanegol sy'n gysylltiedig â Brexit a / neu gynydd mewn rheoliadau iechyd a diogelwch fel rhan o reoli'r pandemig COVID-19.



## 2.5 PENDERFYNYDD ALLWEDDOL - MYNEDIAD AT WASANAETHAU AC ANSAWDD GWASANAETHAU

Thema Allweddol yr Effeithir arni gan yr Her Driphlyg	Llwybrau Effaith	Grwpiau Poblogaeth yr effeithir arnynt:
Cyfathrebu a thechnoleg ddigidol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisiâu i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19 er enghraifft, aros gartref, cadw pellter cymdeithasol, gweithio gartref, cau rhai sectorau, tarfu ar addysg a gofal plant.</li> <li>• Newid safonau rheoleiddio a fframweithiau cyfreithiol</li> <li>• Gadael y farchnad sengl a / neu'r undeb tollau.</li> <li>• Ffactorau'n ymwneud â llesiant meddwl gan gynnwys gwytnwch, rheolaeth a chyfranogiad gan gynnwys mwy o straen a gorbryder; ansicrwydd ynghylch y dyfodol.</li> <li>• Llai o fynediad at fecanweithiau rhannu data, gwybodaeth a thystiolaeth.</li> <li>• Y ffaith nad yw Dinasyddion y DU bellach yn ddinasyddion yr UE.</li> <li>• Mwy o risg y bydd lleoliadau, gweithluoedd a seilwaith, er enghraifft, amaethyddiaeth, trafnidiaeth, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn profi tywydd eithafol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y boblogaeth gyfan</li> <li>• Y rhai ar incwm isel</li> <li>• Pobl hŷn</li> <li>• Plant ac oedolion ifanc</li> <li>• Mewnfwydwr a'u teuluoedd</li> <li>• Ardaloedd daearyddol</li> </ul>





Thema Allweddol yr Effeithir arni gan yr Her Driphlyg	Llwybrau Effaith	Grwpiau Poblogaeth yr effeithir arnynt:
<p>Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys recriwtio a chadw</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisiau i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19 er enghraifft, aros gartref, cadw pellter cymdeithasol, gweithio gartref, cau rhai sectorau, tarfu ar addysg a gofal plant.</li> <li>• Ffactorau llesiant meddwl gan gynnwys gwytnwch, rheolaeth a chyfranogiad gan gynnwys mwy o straen a gorbryder; ansicrwydd ynghylch y dyfodol h.y. hawl Gwladolion yr UE a'u teuluoedd i barhau i fyw / gweithio yn y DU.</li> <li>• Newid safonau rheoleiddio a fframweithiau cyfreithiol</li> <li>• Gadael y farchnad sengl a / neu'r undeb tollau.</li> <li>• Hawliau Gwladolion yr UE i fyw a gweithio yn y DU.</li> <li>• Mwy o risg y bydd lleoliadau, gweithluoedd a seilwaith, er enghraifft, amaethyddiaeth, trafniadaeth, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn profi tywydd eithafol.</li> <li>• Perygl o farwolaeth ac afiachedd yn sgil y feirws COVID-19 / dim symptomau ac oedi gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.</li> <li>• Llai o fynediad at systemau iechyd y cyhoedd cydlynus allweddol.</li> <li>• Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol.</li> <li>• Dadleoli'r boblogaeth, colli'r rhyddid i symud a newidiadau i bolisiau mewnfudo.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y boblogaeth gyfan</li> <li>• Gweithwyr hanfodol gan gynnwys gyrwyr danfon nwyddau a gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm.</li> <li>• Ardaloedd daearyddol gan gynnwys ardaloedd twristiaeth a threfi porthladd</li> <li>• Y rhai ar incwm isel</li> <li>• Y rhai mewn cyflogaeth sy'n agored iawn i effeithiau Brexit, newid yn yr hinsawdd a COVID-19</li> </ul>

## Enghraifft o dan y chwyddwydr: Cyfathrebu a Thechnoleg Ddigidol

---

Mae'r pandemig COVID-19 wedi cyflymu'r defnydd o gyfathrebu digidol a thechnoleg ddigidol mewn llu o ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys galluogi pobl i weithio gartref, darparu gwasanaethau, gwybodaeth a chyngor a hwyluso rhyngweithio personol a chymdeithasol rhwng unigolion a chymunedau (Green et al., 2020a, Douglas et al., 2020; NHS Digital, 2020). Fe'i defnyddiwyd yn effeithiol hefyd yn ystod y cyfyngiadau symud i alluogi manwerthu ar-lein a chofnodwyd y lefelau uchaf erioed o weithgaredd manwerthu ar-lein ym mis Ionawr 2021 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021c). Fodd bynnag, nid yw mathau digidol o gyfathrebu yn addas i bawb. Mae rhai plant, pobl ifanc, pobl hŷn a'r rhai ar incwm isel wedi'u hallgáu yn ddigidol yng Nghymru (Davies et al., 2019). Gallent fod yn colli rhai mathau pwysig o gefnogaeth, gwybodaeth, negeseuon iechyd allweddol ac arweiniad gan fod llawer o asiantaethau a sefydliadau yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ledaenu gwybodaeth yn gyflym i ystod eang o bobl. Mae mesurau aros gartref / cadw pellter cymdeithasol yn fwy tebygol o effeithio ar y rhai nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrdd, gan arwain at faterion fel plant yn methu â chael mynediad i addysg o bell, yn ogystal â materion yn ymwneud â chael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau iechyd (Y Cenhedloedd Unedig, 2020a). Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi dadlau dros ehangu mynediad i'r rhyngwrdd i'r rhai sy'n dlawd neu sydd fwyaf mewn perygl yn ogystal â thros gyflwyno mesurau diogelwch wrth ddefnyddio gwyliadwriaeth, deallusrwydd artifisial a data mawr (Y Cenhedloedd Unedig, 2020b). Mae angen ystyried lefelau llythrennedd digidol ac iechyd hefyd gan fod llawer o aelodau cymdeithas yn agored i dwyll a 'sgamiau' ar-lein sydd ar gynnydd yn ystod y pandemig (Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, 2020; Canolfan Genedlaethol Adrodd ar Dwyll a Seiberdroseddau, 2020; Experian, 2020; UK Finance, 2020).

Gall y cynnydd a'r newid cyflym i ddefnyddio dulliau mwy digidol o gyfathrebu a gweithio hefyd alluogi'r boblogaeth i leihau'r effaith ar newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, gall gweithio gartref a thechnoleg ddigidol alluogi darparu gwasanaethau o bell ac felly olygu nad oes angen i rai gweithluoedd gymudo na theithio cymaint ag yn y cyfnod cyn y pandemig (WSP 2020; CET, 2021). Fodd bynnag, nododd un astudiaeth yn yr Unol Daleithiau y gallai defnydd cysylltiedig o ynni yn y cartref ac ymddygiad pobl mewn perthynas â hynny negyddu hyn (Cruickshank, 2020).

Mae Brexit wedi bod yn newid annisgwyl mewn perthynas â thechnoleg ddigidol a chyfathrebu digidol. Gellir edrych ar hyn drwy drwy lens Cytundebau Masnach Rydd, er enghraifft dod i gytundeb ynghylch y Cytundeb Masnach a Chydweithredu gyda'r UE. Mae adroddiad pwyllgor seneddol y DU ar fasnach ddigidol a data wedi tynnu sylw at y ffaith y bydd gan Gytundebau Masnach Rydd oblygiadau mewn perthynas â nwyddau a gwasanaethau a fasnachir drwy dulliau digidol er enghraifft, gwybodaeth a data ystadegol gan gynnwys gwybodaeth iechyd. O ganlyniad i'r pandemig COVID-19 mae mwy o fasnach yn digwydd ar-lein (Adran Masnach Ryngwladol, 2021). Mae adroddiad yn Nhŷ'r Cyffredin yn tynnu sylw at y ffaith bod Cytundebau Masnach Rydd yn hynod bwysig mewn perthynas â'r cysyniad hwn a phatrymau masnachu yn y dyfodol lle bydd masnach ddigidol yn dod yn bwysicach fyth (Tŷ'r Cyffredin, 2021). Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod bod polisi'r DU o ran masnach ddigidol yn dal i gael ei ddatblygu a bod hyn yn rhoi cyfle i ystyried sut y gallai patrymau'r dyfodol gael effaith ar iechyd y cyhoedd, prosiectau cydweithredol yn y maes ymchwil a datblygu a data gwasanaethau iechyd.

Mae ffonau symudol a rhwydweithiau digidol yn alluogwr ar gyfer cysylltedd cymdeithasol a gwaith i lawer o unigolion a gallant hwyluso iechyd a llesiant da drwy hyn a gallant hyrwyddo tegwch i grwpiau fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches (Wajcman, 2008; Walker et

al., 2014). Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn annog cydweithredu ar hyrwyddo cyfraddau teg a thryloyw ar gyfer trawsrwydweithio rhyngwladol mewn perthynas â ffonau symudol, ond nid yw'n atal gweithredwyr rhag codi tâl am alwadau a thrawsrwydweithio. Mae hyn oherwydd nad yw'n cynnwys unrhyw ddarpariaethau neu eithriadau penodol mewn perthynas â thaliadau trawsrwydweithio ar gyfer ffonau symudol, gan and yw Rheoliadau Trawsrwydweithio Ffonau Symudol (Ymadael â'r UE) 2019 yn dod i rym tan ddiwedd y cyfnod pontio (Hutton, 2020; Gallardo, 2021). Mae hyn wedi arwain at rai cyflenwyr yn y DU yn cyflwyno taliadau. Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd y cwmni ffonau symudol EE ei fod yn cynyddu ei daliadau trawsrwydweithio i gwsmeriaid y DU sy'n ymweld â'r UE a dilynodd Vodafone yr un trywydd ym mis Awst 2021 (Wired, 2021). Bydd cyflwyno taliadau trawsrwydweithio yn cael effaith ar ddinasyddion y DU neu'r rhai sydd â ffonau symudol sydd wedi'u cofrestru yn y DU sydd ar wyliau, sy'n byw a / neu'n gweithio yn Ewrop a chost cysylltu â'u cyflogwr, eu teuluoedd a'u ffrindiau. Gallai taliadau uwch hefyd effeithio ar y rhai ar incwm isel sy'n teithio y tu allan i'r DU. Mae'r cytundeb masnach diweddar y cytunwyd arno rhwng y DU a Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein wedi cynnwys cap ar y taliadau y caniateir i weithredwyr ffonau symudol eu codi ar ei gilydd am drawsrwydweithio rhyngwladol, y cyntaf o'i fath yn y byd mewn bargaen masnach rydd (Boffey, 2021).

Cyhoeddodd Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd ar 28 Mehefin 2021 ei fod wedi cymeradwyo dau benderfyniad digonolrwydd<sup>2</sup> ar gyfer y DU. Roedd y cyntaf o'r rhain mewn perthynas â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), sy'n caniatáu i ddata personol symud yn rhydd rhwng yr UE a'r DU, lle mae'n elwa o lefel gyfwerth o ddiogelwch â'r hyn sy'n cael ei warantu o dan gyfraith yr UE. Mae'r ail benderfyniad yn cyfeirio at weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gywir, sy'n caniatáu cyfnewid gwybodaeth bersonol, er enghraifft fel rhan o gydweithredu ar faterion barnwrol. Bydd y ddau benderfyniad digonolrwydd hyn yn para am bedair blynedd tan 2025. (Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd, 2021).



<sup>2</sup> Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd y pŵer i benderfynu, ar sail erthygl 45 o Reoliad (yr UE) 2016/679 a yw gwlad y tu allan i'r UE yn cynnig lefel ddigonol o ddiogelwch data.

## 2.6 PENDERFYNYDD ALLWEDDOL - YR ECONOMI

Thema Allweddol yr Effeithir arni gan yr Her Driphlyg	Llwybrau Effaith	Grwpiau Poblogaeth yr effeithir arnynt:
Cyflogaeth, gan gynnwys mathau o gyflogaeth ac amodau gwaith	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dirwasgiad economaidd / colli cyflogaeth, chwyddiant a gostyngiad cysylltiedig mewn cyllid ar gyfer y sector cyhoeddus, seilwaith ac asedau cymunedol allweddol.</li> <li>• Ffactorau'n ymwneud â llesiant meddyliol gan gynnwys gwytnwch, rheolaeth a chyfranogiad gan gynnwys mwy o straen a gorbryder; ansicrwydd ynghylch y dyfodol h.y. hawl Gwladolion yr UE i barhau i fyw / gweithio yn y DU.</li> <li>• Telerau polisi masnach a chytundebau masnach yn y dyfodol.</li> <li>• Newid safonau rheoleiddio a fframweithiau cyfreithiol</li> <li>• Newidiadau i fecanweithiau cyllido.</li> <li>• Dadleoli pobl, colli'r rhyddid i symud a newidiadau i bolisiau mewnfudo.</li> <li>• Gadael y farchnad sengl a / neu'r undeb tollau.</li> <li>• Gwahaniaethau rheoliadol sy'n cynyddu gofynion tollau ar ffiniau.</li> <li>• Hawliau Gwladolion yr UE i fyw a gweithio yn y DU.</li> <li>• Y ffaith nad yw Dinasyddion y DU bellach yn ddinasyddion yr UE (heb ei ddatganoli).</li> <li>• Polisiâu cyfyngu er enghraifft, aros gartref, cadw pellter cymdeithasol, gweithio gartref, cau rhai sectorau, tarfu ar addysg a gofal plant.</li> <li>• Perygl o farwolaeth ac afiachedd yn sgil y feirws COVID-19 / dim symptomau ac oedi gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.</li> <li>• Mwy o risg y bydd lleoliadau, gweithluoedd a seilwaith, er enghraifft, amaethyddiaeth, trafnidiaeth, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn profi tywydd eithafol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y boblogaeth gyfan</li> <li>• Pobl hŷn</li> <li>• Gweithwyr hanfodol</li> <li>• Y rhai â chyflyrau cronig / sydd angen gofal</li> <li>• Y rhai ar incwm isel</li> <li>• Grwpiau daearyddol</li> <li>• Ffermwyr</li> <li>• Pysgotwyr</li> <li>• Pobl ifanc</li> <li>• Mewnfudwyr a'u teuluoedd</li> </ul>

## Enghraifft o dan y chwyddwydr: Cyflogaeth

Mae cyflogaeth neu ddiweithdra yn brif benderfynyddion iechyd ac mae diweithdra yn un o ddangosyddion salwch hirdymor a chanlyniadau iechyd gwaeth (Gray et al., 2021; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019; Kadel et al., 2020). Yn 2020, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru bapur a amlygodd yn sgil cynnydd mewn diweithdra, y byddai disgwyl i salwch hirdymor gynyddu'n raddol yn dilyn y pandemig COVID-19, gydag amcangyfrif o gynnydd o tua 4%, neu'n fwy na 4%, dros dair blynedd yn dibynnu ar y mesur salwch hirdymor. Byddai cynnydd uwch yng nghanran yr oedolion â salwch hirdymor cyfyngol o gymharu ag oedolion ag unrhyw salwch hirdymor, gan awgrymu goblygiadau i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach (Kadel et al., 2020).

Rhagwelwyd y byddai'r pandemig COVID-19 a'r ymateb iddo yn arwain at ddirywiad o 4% yn yr economi fyd-eang (mwy na \$6 triliwn), gan dybio bod yr adferiad yn dechrau yn ail hanner 2020 (Bosley, 2020). Gwelwyd gostyngiad o 1.5% yng nghynnyrch domestig gros y DU yn chwarter cyntaf 2021 o gymharu â'r chwarter blaenorol oherwydd y cyfyngiadau symud a'r ffaith bod llawer o fusnesau, fel manwerthu nad yw'n hanfodol, wedi cau. Mae lefel y cynnyrch domestig gros bellach 8.7% yn is nag yr oedd yn Chwarter 4 (Hydref i Ragfyr) 2019 a chyn y pandemig (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021f). Er gwaethaf ymyriadau cymorth economaidd, cynyddodd cyfradd diweithdra'r DU yn sydyn o 3.8% yn 2019 i oddeutu 5.1% ar ddiwedd 2020 yn dilyn COVID-19 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021g) a disgwylir iddo gynyddu'n raddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Yng Nghymru, cynyddodd y gyfradd ddiweithdra i 4.4% (cynnydd o 1.5% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol) er bod llawer o weithwyr yn cael eu cefnogi gan gynlluniau'r llywodraeth fel y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (a elwir hefyd yn 'Ffyrlo') (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021g; Llywodraeth Cymru, 2021d; Llywodraeth Cymru, 2021h). Gall chwyddiant hefyd effeithio ar gyflogaeth, iechyd a llesiant. Mae chwyddiant wedi codi'n sydyn sy'n cyfrannu at brisiau uwch ac felly'n effeithio ar werthiannau, allforion a chyflogaeth. Ym mis Mehefin 2021, roedd chwyddiant wedi cynyddu 2.5% o fis Mehefin 2020 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021e) a gall cost uwch nwyddau effeithio ar fusnesau ac unigolion - yn enwedig y rhai ar incwm isel nad oes ganddynt yr ystwythder yn eu hincwm o bosibl i allu ymdopi ag unrhyw newidiadau.

Ar nodyn cadarnhaol yng Nghymru, galluogodd y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws i lawer o weithwyr gadw eu swyddi a'u hincwm yn ystod mesurau'r pandemig os oeddent yn cael eu cyflogi mewn sector a gaewyd dros dro oherwydd yr ystyriwyd nad oeddent yn hanfodol (CThEM, 2021; Llywodraeth Cymru, 2021d). Roedd hyn yn cynnwys lletygarwch, hamdden a manwerthu 'nad yw'n hanfodol' fel siopau dillad (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021c). Ym mis Ionawr 2021, cafodd 178,000 o weithwyr eu rhoi ar ffyrlo yng Nghymru, sef oddeutu 14%. Roedd hyn yn debyg i Loegr (Llywodraeth Cymru, 2021d). Erbyn mis Mehefin 2021, roedd hyn wedi gostwng i 68,800 (Llywodraeth Cymru, 2021d). Darparwyd grantiau yng Nghymru i fusnesau bach ac roedd cymorth ar gael i'r rhai a oedd yn hunangyflogedig (Llywodraeth Cymru, 2021d). Mae gan Gymru lefelau uchel o ficrofusnesau hefyd a galluogwyd y rhain i aros yn hyfyw cymaint â phosibl (Ystadegau Cymru, 2019b). Roedd tua 88,000 o bobl wedi gwneud cais llwyddiannus yng Nghymru erbyn Ionawr 2021, sef 63% o'r rhai sy'n gymwys (Llywodraeth Cymru, 2021d).

Gallai'r pandemig COVID-19 arwain at fwy o gyflogaeth drwy gynnydd mewn twristiaeth fewnol a 'gwyliau gartref' yng Nghymru. Gall hefyd arwain at ostyngiad posibl mewn allyriadau carbon sy'n digwydd yn sgil hedfan i gyrchfannau tramor oherwydd y cyfyngiadau ar allu'r boblogaeth i fynd ar deithiau rhyngwladol 'nad ydynt yn hanfodol' a / neu ansicrwydd ynghylch yr amseru er enghraifft, pa goridorau rhyngwladol 'gwyrrdd' i gyrchfannau gwyliau eraill fyddai'n dal ar agor neu ar gau i deithwyr (Llywodraeth Cymru, 2021n; Lock, 2021; Forgrave, 2021). Gallai newidiadau yn yr hinsawdd yng Nghymru a chynnydd yn y tymheredd hefyd arwain at gyfleoedd pellach i hyrwyddo twristiaeth fewnol gyda ffocws ar dwristiaeth

ecolegol a chynaliadwy a mwynhau'r arfordir helaeth, y mynyddoedd a'r traethau (Y Sefydliad Rheoli Morol, 2016).

Yn ystod y pandemig, bu twf mewn rhai sectorau manwerthu er enghraifft, manwerthwyr sy'n archfarchnadoedd a manwerthwyr ar-lein (Financial Times, 2021) a mwy o gefnogaeth i economïau sylfaenol lleol wrth i'r boblogaeth gael ei hannog i siopa'n lleol (Jones, 2020; Brewer a Patrick, 2021; Llywodraeth Cymru, 2020; Cyngor Sir Fynwy, 2020; Green et al., 2020b). Gallai cysylltu â newid yn yr hinsawdd ac adeiladu ar bolisiau Llywodraeth Cymru a pholisiau eraill (Llywodraeth Cymru, 2019c; Llywodraeth Cymru, 2021a; Sefydliad Bevan, 2020), defnyddio gwasanaethau lleol a galluogi'r cysyniad o 'gymdogaethau 20 munud' (TCPA, 2021; Douglas a Beautyman, 2020) arwain at adfywiad lleol, twf a mwy o swyddi. Yn ogystal, gallant hefyd hwyluso gwell iechyd drwy ddefnyddio teithio llesol (Teuton et al., 2020a; Douglas a Beautyman, 2020) a gallant arwain at ganlyniadau amgylcheddol gwell oherwydd y pellter byrrach a deithiwyd i gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau (Green et al., 2020b). Fodd bynnag, gallai aflonyddwch oherwydd newidiadau mewn patrymau tywydd a / neu ddatgarboneiddio cyflym gyfrannu at ddirywiad economaidd a allai effeithio ar gyflogaeth neu sectorau penodol gan gynnwys rhai lleol (DEFRA, 2010). Yn ogystal, mae'r newid cynyddol i fanwerthu mwy ar-lein wedi arwain at gynnydd mewn gyrwyr danfon nwyddau a fydd yn cael effaith ar yr amgylchedd oherwydd cynnydd mewn symudiadau traffig - sy'n gyfrannwr mawr at newid yn yr hinsawdd (Teuton et al., 2020b; Comisiwn Ewropeaidd, 2016; Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019; Douglas a Beautyman, 2020).

Mae tystiolaeth hefyd y gall tanau gwyllt, llifogydd, tirlithriadau a digwyddiadau eraill sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd arwain at golledion economaidd a cholledion cyflogaeth (Zuo et al., 2015; Froude et al., 2018; Adger et al., 2014; Hoegh-Guldberg et al., 2018; Senedd y DU, 2018). Yng Nghymru a Lloegr, gallai newidiadau a ragwelir mewn perygl llifogydd arwain at ddifrod economaidd hyd at 20 gwaith yn fwy nag sy'n digwydd nawr, erbyn y 2080au (Adger et al., 2014). Bydd lleihau cynhyrchiant bwyd, cynnydd mewn materion iechyd sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, a thywydd mwy eithafol yn arafu twf economaidd ac yn effeithio ar gyflogaeth ac incwm, gan ei gwneud yn fwyfwy anodd lleihau tlodi (Mbow a Rosenzweig, 2019). Gall llai o weithgareddau gwaith yn yr awyr agored a diwrnodau gwaith a gollir oherwydd ffactorau'n ymwneud â'r hinsawdd arwain at golledion economaidd (Zuo et al., 2015; Llywodraeth Cymru, 2019b) a gallai gweithgaredd economaidd y diwydiant amaethyddol leihau yn sgil effaith y newid yn yr hinsawdd ar gnydau a da byw (Zuo et al., 2015; Hoegh-Guldberg et al., 2018; Castells-Quintana et al., 2015).

Er bod llawer o bryderon cynnar ynghylch effaith Brexit ar gyflogaeth, parhaodd lefelau cyflogaeth i dyfu o 2016 hyd nes y cyhoeddwyd y pandemig (CIPD, dim dyddiad). Fodd bynnag, mae effaith COVID-19 a cholli cyflogaeth oherwydd y pandemig a'r mesurau cysylltiedig wedi cuddio unrhyw ddiweithdra a allai fod wedi deillio o ymadawiad y DU o'r UE. Ar nodyn cadarnhaol, gallai Cytundebau Masnach Rydd newydd ar ôl Brexit greu cyfleoedd gwaith newydd, er enghraifft, ar gyfer pysgodfeydd a ffermio yng Nghymru wrth i farchnadoedd newydd gael eu creu ar gyfer mewnforion ac allforion (Llywodraeth Cymru, 2021o; Llywodraeth Cymru, 2014). Fodd bynnag, gall Cytundebau Masnach Rydd hefyd gael effaith negyddol ar gyflogaeth gan fod eraill yn gwerthu nwyddau'n rhatach na chynhyrchwyr Cymru am resymau sy'n cynnwys cynnydd yn y cyflenwad o gynhyrchion tebyg, rhatach wedi'u mewnforio a rhwystrau a thariffau masnach a fyddai'n cynyddu cost allforio i'r UE. Gallai hefyd gael effaith ar gyflogaeth oherwydd newidiadau mewn patrymau ymfudo a mewnfudo a ddaeth yn sgil Brexit a rheoliadau mewnfudo. Gallai hyn gael effaith fawr ar lefelau staffio ar draws ystod o sectorau gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol ac amaethyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2021f, Cydffederasiwn GIG Cymru, 2021). Mae Brexit a'r pandemig hefyd wedi effeithio ar gyflogaeth ar draws ardaloedd arfordirol a threfi twristiaeth gan fod cyflenwad llai o weithwyr o'r UE (a chenedl-wladwriaethau eraill) ar gael i weithio yn y sector lletygarwch, er enghraifft, gwestai a bwytai oherwydd y newidiadau mewn rheolau mewnfudo ond hefyd oherwydd y cyfyngiadau symud ar y boblogaeth (KPMG, 2017; The Independent, 2021).

Adroddwyd mai un o brif effeithiau tymor canolig Brexit a COVID-19 ac unrhyw ddirywiad economaidd yw y gallai cyflogwyr fuddsoddi llai mewn cyflogaeth ddiogel a datblygu sgiliau. Bydd unrhyw ddirwasgiad yn cael effaith negyddol ar ystod eang o grwpiau poblogaeth gan gynnwys pobl ifanc, y rhai ag anableddau / anawsterau dysgu, y rhai â chyflawniad addysgol isel a'r rhai â chyflyrau iechyd meddwl (Keep, 2020). Fodd bynnag, wrth i'r sefyllfa economaidd esblygu, mae'r cyfnod presennol yn cynnig cyfle i roi'r gorau i fesur cynnydd cenedl-wladwriaeth ar sail cynnyrch domestig gros. Mae Cymru, ynghyd â'r Alban, y Ffindir, Gwlad yr Iâ a Seland Newydd yn aelodau o bartneriaeth Llywodraethau Economi Llesiant sy'n mabwysiadu cyd-uchelgais i greu economïau llesiant ble mae polisi yn seiliedig ar lesiant bodau dynol ac ecolegol, nid dim ond twf economaidd (EuroHealthNet, 2021).

## Mathau o gyflogaeth

---

Mae gan Brexit oblygiadau i ystod o weithluoedd ac yn arbennig i'r rhai a gyflogir mewn diwydiannau sy'n debygol iawn o ddiodeff yn sgil Cytundebau Masnach Rydd a rhwystrau technegol i fasnach er enghraifft, tariffau a'r rhai sy'n derbyn grantiau a chymorthdaliadau'r UE er enghraifft, pysgotwyr a ffermwyr. Mae hefyd yn effeithio ar y galwedigaethau a'r sectorau hynny sy'n fwy tebygol o ddiodeff effaith rheoliadau mewn fudo fel gweithwyr amaethyddol, iechyd a gofal cymdeithasol a lletygarwch lle mae problemau recriwtio a chadw wedi gwaethygu. Cyn Brexit nododd Llywodraeth Cymru fod y sectorau milfeddygol, gweithgynhyrchu bwyd a diod a'r GIG i gyd yn arbennig o ddibynnol ar sgiliau o Ardal Economaidd Ewropeaidd (Llywodraeth Cymru, 2017c).

Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio'n bennaf ar y gweithlu yng Nghymru, ar draws pob disgyblaeth, sector a lleoliad daearyddol a'r rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau (Joyce a Xu, 2020; Green et al., 2020a). Mae hyn yn cynnwys gweithwyr hanfodol er enghraifft, iechyd a gofal cymdeithasol, manwerthu hanfodol, yr heddlu, addysg, gyrrwyr cerbydau nwyddau trwm a gyrrwyr danfon nwyddau a'r rhai mewn sectorau a gaewyd er enghraifft, hamdden, manwerthu nad yw'n hanfodol a lletygarwch (Joyce a Xu, 2020). Mae'r pandemig yn cael effaith ar arferion gwaith er enghraifft, gweithio gartref a chadw phellter cymdeithasol mewn galwedigaethau a lleoliadau lle nad yw'n bosibl gweithio gartref. Amlygodd adroddiad yn 2020 fod y sectorau yr effeithir arnynt fwyaf gan y cyfyngiadau symud (manwerthu, hamdden, trafndiaeth) yn cyflogi 15% o'r gweithlu. Mae'r rhain yn fwy tebygol o fod yn bobl ifanc (mae bron i draean o bobl dan 25 oed yn cael eu cyflogi yn y sectorau hyn); pobl ar incwm isel (mae gan draean y gweithwyr y 10% isaf o enillion); a menywod (mae 17% o fenywod yn cael eu cyflogi yn y sectorau hyn o gymharu ag 13% o ddynion) (Joyce a Xu, 2020).

Bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar ystod o sectorau a'u hamodau gwaith. Yn bennaf, gweithwyr awyr agored fydd y rhain, gan gynnwys ffermwyr a gweithwyr amaethyddol, gweithwyr adeiladu, coedwigaeth a chyfleustodau - ond bydd hefyd yn effeithio ar y rhai sy'n gweithio mewn adeiladau nad ydynt wedi'u haddasu i ymdopi ag amrywiaeth o dymheredd ac amodau tywydd (Binazzi et al., 2019; Bonafede et al., 2016; Castells-Quintana et al., 2018; Flouris et al., 2018; Levi et al., 2018). Mae dogfen ddiweddar gan y Tasglu Swyddi Gwyrdd Annibynnol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, yn hyrwyddo'r syniad bod gan bob math o swydd yn y DU y potensial i fod yn swydd werdd. Noda y gallai'r DU alluogi chwyldro diwydiannol gwyrdd drwy i'r sectorau busnes, addysg a diwydiant weithio ar y cyd â Llywodraethau'r DU er mwyn sicrhau bod sgiliau ar gyfer swyddi gwyrdd da, a llwybrau iddynt, yn cael eu cefnogi a'u hyrwyddo (Llywodraeth y DU, 2021). Mae gan Gymru ffocws integredig tebyg yn ei 'Rhaglen Lywodraethu' ar gyfer 2021 ac adroddwyd bod gan Gymru botensial twf sydd heb ei gyffwrdd eto, yn arbennig ar gyfer creu ynni, gan gynnwys ynni o ffynonellau adnewyddadwy a bu twf sylweddol yn y sector ynni carbon isel ar lefel gymunedol yng Nghymru ers sawl blwyddyn (Llywodraeth Cymru, 2017b).

### 3 CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

- Bydd yr Her Driphlyg yn cael ystod eang o effeithiau cyfansawdd ar sawl penderfynydd iechyd. Bydd angen edrych ar y rhain ar y cyd, yn eu crynswth ac nid drwy un lens.
- Ymhlith y penderfynyddion allweddol yr effeithir arnynt mae, er enghraifft, llesiant meddyliol, ansicrwydd bwyd, ymddygiad iechyd, polisi / rheoliadau amgylcheddol, cyflogaeth ac amodau gwaith.
- Ymhlith y grwpiau poblogaeth a allai gael eu heffeithio mae, er enghraifft, y rhai mewn cymunedau gwledig, pysgotwyr a ffermwyr, y rhai ar incwm isel a babanod, plant a phobl ifanc.
- Ceir bwlch yn yr ymchwil a'r dystiolaeth gyhoeddedig sy'n cysylltu'r tair her â'i gilydd. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth sy'n cysylltu cyfuniadau o ddwy o'r heriau ag iechyd a llesiant a thegwch, er enghraifft; Brexit a COVID-19; neu COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd; neu Brexit a'r newid yn yr hinsawdd.
- Mae'r newid yn yr hinsawdd yn thema gyffredin yn y llenyddiaeth sy'n ymwneud â COVID-19 a Brexit. Mae'r ddwy her yn cyflwyno ffyrdd o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, er enghraifft gwella ansawdd aer yng Nghymru.
- Mae'r cyfnod hwn yn cynnig 'fffenestr gyfle' i newid polisi a fydd yn creu cydfanteision i iechyd a llesiant, yr economi ac amgylchedd cynaliadwy yng Nghymru. Mae rhai o'r meysydd polisi wedi'u datganoli i Gymru ac eraill heb eu datganoli ac felly bydd angen i wledydd weithio gyda'i gilydd i wneud y mwyaf o hyn.
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu amgylchedd sy'n galluogi Cymru i ddefnyddio lens Her Driphlyg mewn perthynas â pholisïau a strategaethau. Gellir trosglwyddo hyn i wledydd datganoledig tebyg eraill ledled y DU ac Ewrop.
- Ceir cyfle i gryfhau negeseuon iechyd y cyhoedd o amgylch ymddygiad iechyd yn sgil cynnydd ym mhroffil materion iechyd cyhoeddus ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â Brexit, COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd er enghraifft, deiet a maeth; ansicrwydd bwyd a gwastraff.
- Mae Masnach a Chytundebau Masnach Rydd yn sbardun pwysig i'r tair her a dylid ystyried eu heffaith ar iechyd a'u heffaith ehangach nawr ac yn y dyfodol. I rai penderfynyddion, er enghraifft rheoleiddio a safonau amgylcheddol neu'r economi, mae hyn yn fwy eglur nag ar gyfer eraill a chyfeirir atynt amlaf mewn perthynas â Brexit. Fodd bynnag, mae masnach hefyd yn bwysig o ran COVID-19, er enghraifft, cyflenwi brechlynnau a'r newid yn yr hinsawdd gan y gall Cytundebau Masnach Rydd gyfyngu ar y gallu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a pholisïau a thargedau lleol. Mae angen ffordd fwy cyfannol ac integredig o lunio polisïau ar gyfer masnach ac mae angen arweinyddiaeth er mwyn dod â phawb yr effeithir arnynt ynghyd i ystyried effaith y rhain ar iechyd.
- Gall Brexit a'r pandemig gyflwyno cyfleoedd ar gyfer y dyfodol, er enghraifft i gefnogi 'chwyldro diwydiannol gwyrdd', 'swyddi gwyrdd' a mwy o gyflogaeth i greu economi decach, fwy cynaliadwy yng Nghymru ac 'Economi Llesiant'.



## Grwpiau Poblogaeth yr effeithir arnynt

Gall nifer o elfennau'r Her Driphlyg arwain at effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar boblogaeth gyfan Cymru. Fodd bynnag, mae rhai elfennau'n effeithio'n anghymesur ar grwpiau poblogaeth unigol sy'n agored i niwed, gan gynnwys:



**Plant ac  
oedolion ifanc**



**Ffermwyr,  
Pysgotwyr  
a gweithwyr  
yn y sector  
amaethyddol**



**Pobl hŷn**



**Gweithwyr hanfodol,  
gan gynnwys  
gweithwyr iechyd a  
gofal cymdeithasol,  
gyrwr danfon  
nwyddau a gyrwr  
cerbydau nwyddau  
trwm**



**Y rhai ar incwm  
isel / y rhai sy'n  
ddi-waith**



**Grwpiau  
lleiafrifoedd  
ethnig**



**Ardaloedd  
daeryddol, gan  
gynnwys y rhai  
mewn ardaloedd  
gwledig neu  
arfordirol, ardaloedd  
twristiaeth neu  
drefi porthladd**



**Mewnfudwyr  
a'u teuluoedd**



**Y rhai â chyflyrau  
ac anghenion  
iechyd presennol**



**Teuluoedd  
un rhiant**

## 4 CAMAU GWEITHREDU POSIBL I HYRWYDDO IECHYD, LLESIANT A THEGWCH YNG NGHYMURU YNG NGHYD-DESTUN YR HER DRIPHLYG:

Mae yna gamau y gall y rhai sy'n llunio polisiau ac yn gwneud penderfyniadau eu cymryd i alluogi iechyd, llesiant a thegwch i boblogaeth Cymru mewn perthynas â'r Her Driphlyg:

- Dylid cydweithio ar lefel strategol (yn genedlaethol ac yn lleol drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, er enghraifft) i gydlynu camau gweithredu ac ymatebion i'r Her Driphlyg - bydd hyn yn cynyddu adnoddau i'r eithaf ac yn canolbwyntio ymdrechion ar y penderfynyddion a'r grwpiau hynny a fydd yn dioddef effaith driphlyg.
- Dylid ystyried polisiau a chamau gweithredu i fynd i'r afael â'r heriau gyda'i gilydd fel y gellir sicrhau'r cydfanteision mwyaf posibl i iechyd, yr amgylchedd a chymdeithas ac er mwyn lliniaru neu osgoi effeithiau anfwriadol ar sectorau a lleoliadau eraill.
- Datblygu neu ddefnyddio fframwaith cysyniadol 'iechyd ym mhob polisi' sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu i ystyried effaith yr Her Driphlyg yng Nghymru ar lefel leol neu genedlaethol.
- Gall defnyddio methodoleg asesu effaith ar iechyd fod o gymorth i adnabod effeithiau digwyddiadau fel Brexit, COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd yn gynnar a gweithredu fel canolbwynt ar gyfer trafodaeth bellach. Gallant nodi effeithiau posibl neu wirioneddol polisiau a chynlluniau mewn perthynas â'r Her Driphlyg yn ei chyfanrwydd; neu wrth ystyried effaith her unigol i ehangu ei chwmpas i ystyried heriau deuol er enghraifft, Brexit a'r newid yn yr hinsawdd ac effaith COVID-19. Gallai'r broses amlffocws hon gael ei gweithredu gan gyrff cyhoeddus a chymunedau lleol sy'n wynebu heriau cysylltiedig lluosog penodol. Gall unrhyw HIA arwain at liniaru effeithiau negyddol ar iechyd a llesiant a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd presennol neu gyfleoedd yn y dyfodol.
- Bydd datblygu mwy o ddata, tystiolaeth ac ymchwil (a defnyddio'r data a'r wybodaeth iechyd sydd ar gael eisoes) ar gyfer y tair her yn eu cyfanrwydd o gymorth i nodi ymhellach y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn y boblogaeth a'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio'n negyddol ac yn anghymesur ganddynt.
- Mae gan gymunedau lleol ymwybyddiaeth gref o effeithiau Brexit, COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd a bydd rhai cymunedau'n cael eu heffeithio i raddau mwy nag eraill. Bydd angen i gyrff cyhoeddus, timau lleol a'r boblogaeth gydweithio i fynd i'r afael â hyn. Mae adeiladu gwytnwch ar lefel y boblogaeth yn lliniarydd allweddol ynghyd â pholisiau addasu ac arferion mwy cynaliadwy.
- Bydd Masnach a Chytundebau Masnach Rydd yn y dyfodol yn cael effaith fawr ar iechyd a bydd ganddynt oblygiadau mawr i weithgareddau iechyd y cyhoedd. Dylai ymarferwyr iechyd y cyhoedd a llunwyr polisiau gydweithio modd ffordd gydgysylltiedig i hyrwyddo'r effaith y bydd masnach yn ei chael a chodi ymwybyddiaeth o hynny.

- Gall Brexit, COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd gael effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar ymddygiad iechyd er enghraifft, deiet, maeth, teithio llesol ac alcohol. Dylai negeseuon hybu iechyd dynnu sylw at gydfanteision newid ymddygiad i dargedu cynulleidfaoedd er enghraifft, mabwysiadu deiet sy'n gyfeillgar i'r blaned.
- Gall llunwyr polisiâu ddatblygu senarios amgen ar gyfer ystod o faterion, er enghraifft, cadwyni cyflenwi, cyflogaeth ac amrywio defnydd a rheolaeth tir er mwyn nodi a lleihau gwendidau.
- Gall llunwyr polisiâu a chymdeithas sifil ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn meithrin trafodaeth sy'n pontio'r cenedlaethau am effaith yr heriau mewn perthynas â'r amgylchedd a diogelwch hirdymor Cymru. Bydd hyn yn hyrwyddo cyfranogiad, sy'n ffactor amddiffynnol craidd ar gyfer llesiant meddyliol, o ran polisi a chamau gweithredu yn y dyfodol.

## 5 CASGLIAD

Mae'r papur hwn wedi amlygu rhai enghreifftiau allweddol o benderfynyddion iechyd a llesiant a grwpiau poblogaeth y mae polisiâu, strategaethau a deddfwriaeth yn effeithio arnynt yn ymwneud â Her Driphlyg Brexit, COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Mae yna lawer o enghreifftiau hefyd lle yr aethpwyd i'r afael â dim ond un o'r tair her yn unig, ac weithiau ddwy ohonynt. Fodd bynnag, nid oes fawr ddim yn y llenyddiaeth sy'n cysylltu'r tair her ac mae'r papur hwn yn anelu at ddechrau trafodaethau ynghylch y rhyng-gysylltiadau.

Mae'r gwaith hwn wedi tynnu sylw at gydgysylltiad sylweddol rhwng y tri mater, a gallai datblygu dull polisi trosfwaol ar gyfer y meysydd polisi amlffactor hyn helpu i hyrwyddo newid cyflym, effeithiol a pharhaol, a mynd i'r afael â'r materion gyda'i gilydd yn hytrach nag ar wahân a thrwy un lens.

Bydd sicrhau bod cysyniad yr Her Driphlyg yn ganolbwynt ar gyfer polisiâu a strategaethau newydd yn galluogi ystod eang o sefydliadau, cyrff cyhoeddus a chymdeithas ehangach i feddwl am yr effaith gronol yn y dyfodol. Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i barhau i ddefnyddio'r platfform a'r dull aml-fater hwn i ddeall effeithiau digwyddiadau seismig ar iechyd yn well er mwyn cynyddu i'r eithaf effeithiau a chyfleoedd iechyd cadarnhaol wrth fynd i'r afael â phryderon cyffredin mewn perthynas â pholisi a chamau gweithredu ar ôl Brexit, adfer ac adnewyddu ar ôl COVID-19 ac addasu a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd.

## CYFEIRIADAU

- Adger, W.N.; Pulhin, J.M.; Barnett, J; Dabelko, G.D.; Hovelsrud, G.K.; Levy, M; Spring, U.O.; Vogel, C.H.; Adams, H; Hodbod, J; Kent, S a Tarazona, M (2014) Human Security. Yn: Climate Change 2014: Impacts, Adaptation, and Vulnerability. Part A: Global and Sectoral Aspects. Contribution of Working Group 2 to the Fifth Assessment Report of the Intergovernmental Panel on Climate Change (IPCC) (gol.). Gwasg Prifysgol Caergrawnt, Caergrawnt, y Deyrnas Unedig ac Efrog Newydd, UDA, tud. 755 – 791. Ar gael yn [https://www.ipcc.ch/site/assets/uploads/2018/02/WGIIAR5-Chap12\\_FINAL.pdf](https://www.ipcc.ch/site/assets/uploads/2018/02/WGIIAR5-Chap12_FINAL.pdf) [Fel ar: 3 Awst 2021]
- Adran Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru Iechyd (2021) Rapid COVID-19 virology - Public. Rapid COVID-19 surveillance. Ar gael yn <https://public.tableau.com/app/profile/public.health.wales.health.protection/viz/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary> [Fel ar: 26 Awst 2021]
- Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig (2021a) Nod 12. Ar gael yn <https://sdgs.un.org/goals/goal12> [Fel ar: 30 Mehefin 2021]
- Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig (2021b) Nod 17. Ar gael yn <https://sdgs.un.org/goals/goal17> [Fel ar: 30 Mehefin 2021]
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) (2010) Adapting to climate change: A guide for local councils. Ar gael yn [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/218798/adapt-localcouncilguide.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/218798/adapt-localcouncilguide.pdf) [Fel ar: 21 Gorffennaf 2021]
- AgeUK (2020) Brexit could worsen broken care system for older people. Ar gael yn <https://www.ageuk.org.uk/our-impact/campaigning/care-in-crisis/brexit/> [fel ar: 24 Gorffennaf 2021]
- Amienyo, D ac Azapagic, A (2016) Life cycle environmental impacts and costs of beer production and consumption in the UK. International Journal of Life Cycle Assessment 21, tud. 492–499. DOI: <https://doi.org/10.1007/s11367-016-1028-6>
- Ansawdd Aer yng Nghymru (2021) Adroddiad Panel Cyngori ar Aer Glân - Effeithiau'r pandemig Covid-19 ar ansawdd aer yng Nghymru. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn <https://airquality.gov.wales/cy/reports-seminars/reports> [Fel ar: 19 Gorffennaf 2021]
- Asiantaeth Safonau Bwyd (2019) The Food and You Survey - Wave 5 Secondary Analysis: The Current Food Landscape across England, Wales and Northern Ireland. NatCen. Ar gael yn <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/food-and-you-wave-5-secondary-analysis-current-food-landscape.pdf> [Fel ar: 19 Gorffennaf 2021]
- Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) (2020) Avoid coronavirus scams. Ar gael yn <https://www.fca.org.uk/news/news-stories/avoid-coronavirus-scams> [Fel ar: 19 Gorffennaf 2021]
- Banc y Byd (2020) The Adaptation Principles; 6 Ways to Build Resilience to Climate Change. Banc Rhyngwladol Ailadeiladu a Datblygu (IBRD) a'r Gymdeithas Datblygu Rhyngwladol (IDA). Ar gael yn <https://www.worldbank.org/cy/news/feature/2020/11/17/the-adaptation-principles-6-ways-to-build-resilience-to-climate-change> [Fel ar: 23 Gorffennaf 2021]
- BBC (2019) Climate strikes: Hundreds of children miss school to protest. Ar gael yn <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-47250535> [Fel ar: 22 Gorffennaf 2021]
- Binazzi, A; Levi, M; Bonafede, M; Bugani, M; Messeri, A; Morabito, M; Marinaccio, A a Baldasseroni, A (2019) Evaluation of the impact of heat stress on the occurrence of occupational injuries: Meta-analysis of observational studies. American Journal of Industrial Medicine 62(3), tud. 233 – 243. DOI: <https://doi.org/10.1002/ajim.22946>
- Birkbeck, C.D. a Denton, J.W.H. (2020) We need better alignment between climate and trade. Here's a roadmap. Fforwm Economaidd y Byd (WEF). Ar gael yn <https://www.weforum.org/agenda/2020/01/how-can-we-align-climate-and-trade/> [Fel ar: 15 Gorffennaf 2021]
- Blanco, G; Gerlagh, R; Suh, S; Barrett, J; de Coninck, H.C.; Diaz Morejon, C.F.; Mathur, R; Nakicenovic, N; Ofosu Ahenkora, A; Pan, J; Pathak, H; Rice, J; Richels, R; Smith, S.J.; Stern, D.I.; Toth, F.L. a Zhou, P (2014) Chapter 5: Drivers, Trends and Mitigation. Yn: Climate Change. Contribution of Working Group III to the Fifth Assessment Report of the Intergovernmental Panel on Climate Change. Gwasg Prifysgol Caergrawnt, Caergrawnt, y Deyrnas Unedig ac Efrog Newydd, UDA. Ar gael yn [https://www.ipcc.ch/site/assets/uploads/2018/02/ipcc\\_wg3\\_ar5\\_chapter5.pdf](https://www.ipcc.ch/site/assets/uploads/2018/02/ipcc_wg3_ar5_chapter5.pdf) [Fel ar: 12 Gorffennaf 2021]
- Boffey, D (2021) UK strikes trade deal with Norway, Iceland and Liechtenstein. The Guardian. Ar gael yn <https://www.theguardian.com/politics/2021/jun/04/uk-strikes-trade-deal-norway-iceland-liechtenstein-liz-truss> [Fel ar: 15 Gorffennaf 2021]
- Bonafede, M; Marinaccio, A; Asta, F; Schifano, P; Michelozzi, P a Vecchi, S (2016) The association between extreme weather conditions and work-related injuries and diseases. A systematic review of epidemiological studies. Annali dell'Istituto Superiore di Sanità 52(3), tud. 357 – 367.

- Brand, C; Dons, E; Anaya-Boig, E; Avila-Palencia, I; Clark, A; de Nazelle, A; Gascon, M; Gaupp-Berghausen, M; Gerike, R; Götschi, T; Iacorossi, F; Kahlmeier, S; Laeremans, M; Nieuwenhuijsen, M.J.; Orjuela, J.P.; Racioppi, F; Raser, E; Rojas-Rueda, D; Standaert, A; Stigell, E; Sulikova, S; Wegener, S a Panis, L.I. (2021) The climate change mitigation effects of daily active travel in cities. *Transportation Research Part D* 93. DOI: <https://doi.org/10.1016/j.trd.2021.102764>
- Brewer, M a Patrick, R (2021) Pandemic Pressures: Why families on a low income are spending more during Covid-19. Resolution Foundation. Ar gael yn: <https://www.resolutionfoundation.org/app/uploads/2021/01/Pandemic-pressures.pdf> [Fel ar 16 Ebrill 2021]
- Brown, K (2020) How much more climate change is inevitable for the UK? Y Pwyllgor Newid Hinsawdd. Ar gael yn <https://www.theccc.org.uk/2020/04/21/how-much-more-climate-change-is-inevitable-for-the-uk/> [Fel ar: 23 Gorffennaf 2021]
- Brunt, H (2020) Effeithiau llygredd aer yr ymateb i Covid-19 (Cymru): Barn iechyd cyhoeddus. Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol, Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar gael yn [https://airquality.gov.wales/sites/default/files/documents/2020-08/Covid\\_and\\_air\\_quality-a\\_public\\_health\\_opinion\\_final\\_WELSH.pdf](https://airquality.gov.wales/sites/default/files/documents/2020-08/Covid_and_air_quality-a_public_health_opinion_final_WELSH.pdf) [Fel ar: 2 Medi 2021]
- Busnes Cymru (dim dyddiad) Cymorth Ariannol a Grantiau. COVID-19 Cefnogaeth i Fusnes. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn <https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/cymorth/cymorth-ariannol-grantiau> [Fel ar: 24 Gorffennaf 2021]
- Bwyd a Diod Cymru (2019) Gwerthusiad Economaidd o sector Bwyd a Diod Cymru - Diweddariad 2018. Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/2018%20-%20Food%20%26%20Drink%20Economic%20Appraisal%20-%20FINAL%20%28W%29.pdf> [Fel ar: 10 Mehefin 2021]
- Canolfan Economeg ac Ymchwil Busnes (CEBR) (2014) British Jobs and the Single Market. Ar gael yn <https://cebr.com/reports/british-jobs-and-the-single-market/> [Fel ar: 2 Medi 2021]
- Canolfan Genedlaethol Adrodd ar Dwyll a Seiberdroseddu (2020) COVID-19 related scams - news and resources. Action Fraud. Ar gael yn <https://www.actionfraud.police.uk/covid19> [Fel ar: 19 Gorffennaf 2021]
- Carter, P (2019) Brexit Preparedness – Kent County Council Update. Cyngor Sir Caint. Ar gael yn <https://www.kent.gov.uk/about-the-council/brexit/brexit-advice-for-businesses> [Fel ar: 12 Gorffennaf 2021]
- Castells-Quintana, D; Lopez-Urbe, M.D.P a McDermott, T (2015) Climate change and the geographical and institutional drivers of economic development. Canolfan Economeg a Pholisi Newid Hinsawdd, Papur Gwaith Rhif 223. Sefydliad Ymchwil Grantham ar Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd, Papur Gwaith Rhif 198. Ysgol Economeg a Gwyddor Gwleidyddol Llundain. Ar gael yn <https://www.lse.ac.uk/granthaminstitute/wp-content/uploads/2015/07/Working-Paper-198-Castells-Quintana-et-al.pdf> [Fel ar: 3 Awst 2021]
- Center for EcoTechnology (CET) (2020) Is Working from Home Better for the Environment. Ar gael yn <https://www.centerforecotology.org/is-working-from-home-better-for-the-environment/> [Fel ar: 19 Gorffennaf 2021]
- Cianconi, P; Betrò, S a Janiri, L (2020) The Impact of Climate Change on Mental Health: A Systematic Descriptive Review. *Frontiers in Psychiatry*. DOI: <https://doi.org/10.3389/fpsy.2020.00074>
- Coggins, T; Cooke, A; Stansfield, J; O'Hara, K; Champion, J a Edmonds, N (2011) Mental Well-being Impact Assessment: A Toolkit for Well-being, Members of the National MWIA Collaborative (England). National MWIA Collaborative (Lloegr) ar Uned Genedlaethol Datblygu Iechyd Meddwl. Ar gael yn [https://www.researchgate.net/publication/277016347\\_Mental\\_Well-being\\_Impact\\_Assessment\\_A\\_Toolkit\\_for\\_Well-being\\_Members\\_of\\_the\\_National\\_MWIA\\_Collaborative\\_England](https://www.researchgate.net/publication/277016347_Mental_Well-being_Impact_Assessment_A_Toolkit_for_Well-being_Members_of_the_National_MWIA_Collaborative_England) [Fel ar: 22 Gorffennaf 2021]
- Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd (2021) Data protection: Commission adopts adequacy decisions for the UK. Ar gael yn [https://ec.europa.eu/commission/presscorner/detail/cy/ip\\_21\\_3183](https://ec.europa.eu/commission/presscorner/detail/cy/ip_21_3183) [Fel ar: 15 Gorffennaf 2021]
- Confederasiwn GIG Cymru (2018) The key issues for health and social care organisations as the UK prepares to leave the European Union. Ar gael yn [https://www.nhsconfed.org/sites/default/files/media/Wales-policy-forum-brexit-briefing\\_0.pdf](https://www.nhsconfed.org/sites/default/files/media/Wales-policy-forum-brexit-briefing_0.pdf) [Fel ar: 2 Medi 2021]
- Confederasiwn GIG Cymru (2021) What leaving the EU means for health and social care in Wales: Frequently asked questions. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) Ar gael yn [https://www.nhsconfed.org/sites/default/files/media/WNHSC%20Frequently%20asked%20questions%20%20January%202021%20English%20%20Welsh\\_0.pdf](https://www.nhsconfed.org/sites/default/files/media/WNHSC%20Frequently%20asked%20questions%20%20January%202021%20English%20%20Welsh_0.pdf) [Fel ar: 16 Gorffennaf 2021]
- Cruickshank, A (2020) COVID Pandemic-19 Shows Telecommuting Can Help Fight Climate Change. *Scientific American*. Ar gael yn <https://www.scientificamerican.com/article/covid-19-pandemic-shows-telecommuting-can-help-fight-climate-change/> [Fel ar: 19 Gorffennaf 2021]

- Cusack, L; de Crespigny, C a Athanasos, P (2011) Heatwaves and their impact on people with alcohol, drug and mental health conditions: a discussion paper on clinical practice considerations. *Journal of Advanced Nursing* 67(4) tud. 915 – 922. DOI: <https://doi.org/10.1111/j.1365-2648.2010.05551.x>
- Cyddfederasiwn y GIG (2019) Key issues for health and care as the UK prepares to leave the EU. Ar gael yn <https://www.nhsconfed.org/publications/key-issues-health-and-care-uk-prepares-leave-eu> [Fel ar: 23 Awst 2021]
- Cyngor Caerdydd (2021) Two Lanes on Castle Street to re-open to general traffic. Cardiff News Room. Ar gael yn <https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/26778.html> [Fel ar: 26 Awst 2021]
- Cyngor Sir Sir Fynwy (2021) Siopa yn Lleol, Siopa yn Sir Fynwy. Ar gael yn <https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/siopa-yn-lleol-siopa-yn-sir-fynwy/> [Fel ar: 24 Gorffennaf 2021]
- Cyngres Undebau Llafur Cymru (2019) Global school strike - how to show your solidarity on 20 September. Ar gael yn <https://www.tuc.org.uk/news/global-school-strike-how-show-your-solidarity-20-september> [Fel ar: 22 Gorffennaf 2021]
- Cyllid a Thollau EM (2021) HMRC coronavirus (COVID-19) statistics. Llywodraeth y DU. Ar gael yn <https://www.gov.uk/government/collections/hmrc-coronavirus-covid-19-statistics> [Fel ar: 19 Gorffennaf 2021]
- Cymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref (TCPA) (2021) The 20-minute neighbourhood. Ar gael yn <https://www.tcpa.org.uk/the-20-minute-neighbourhood> [Fel ar: 19 Gorffennaf 2021]
- Cynulliad Cyffredinol y Cenedloedd Unedig (2013) Intergenerational solidarity and the needs of future generations. Report of the Secretary-General. Ar gael yn <https://sustainabledevelopment.un.org/content/documents/2006future.pdf> [Fel ar: 9 Gorffennaf 2021]
- Chatham House (2020) UK food and nutrition security in a global COVID-19 context: An early stock take. Llundain: ResourceTrade.Earth, Chatham House. Ar gael yn: <https://resourcetrade.earth/publications/covid-19-uk-food-nutrition-security> [Fel ar: 28 Mai 2021]
- Chiorando, M (2021) Number of Vegans in Britain Skyrocketed by 40% in 2020, Claims Survey. Plant Based News. Ar gael yn <https://plantbasednews.org/culture/ethics/vegans-in-britain-skyrocketed/> [Fel ar: 22 Gorffennaf 2021]
- Davies, A.R.; Sharp, C.A.; Homolova, L a Bellis, M.A. (2019) Iechyd y boblogaeth mewn oes ddigidol: Y defnydd o dechnoleg ddigidol i gefnogi a monitro iechyd yng Nghymru. Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Bangor. Ar gael yn <https://icc.gig.cymru/files/research/iechyd-y-boblogaeth-mewn-oes-ddigidol/> [Fel ar: 19 Gorffennaf 2021]
- Dayan, M; Fahy, N; Hervey, T; McCarey, M; Jarman, H a Greer, S (2020) Understanding the impact of Brexit on health in the UK. Ymddiriedolaeth Nuffield. Ar gael yn [https://www.nuffieldtrust.org.uk/files/2020-12/1608656718\\_impact-of-brexit-on-health-web-nuffield-trust.pdf](https://www.nuffieldtrust.org.uk/files/2020-12/1608656718_impact-of-brexit-on-health-web-nuffield-trust.pdf) [Fel ar: 24 Gorffennaf 2021]
- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (2017) 2017 anaw2. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh> [Fel ar: 30 Mehefin 2021]
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) anaw2. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh> [Fel ar: 18 Mehefin 2021]
- Douglas, M a Beautyman, I (2020) Comparing the 20 Minute Neighbourhood and Traditional Scenarios in Edinburgh Local Development Plan: a Rapid Scoping Assessment. Scottish Health and Inequalities Impact Assessment Network (SHIAN). Gwasanaeth Gwella. Ar gael yn <https://www.scotphn.net/wp-content/uploads/2015/11/20-minute-neighbourhood-rapid-scoping-assessment.pdf> [Fel ar: 24 Gorffennaf 2021]
- Douglas, M; Katikireddi, S.V.; Taulbut, M; McKee, M a McCartney, G (2020) Mitigating the wider health effect of covid-19 pandemic response. *BMJ* 369. DOI: <https://doi.org/10.1136/bmj.m1557>
- Dyakova, M; Couzens, L; Allen, J; Van Eimeren, M; Stielke, A; Cotter-Roberts, A; Kadel, R; Bainham, B; Ashton, K; Stewart, D; Hughes, K; Bellis, M.A. (2021) Gosod tegwch iechyd wrth wraidd ymateb ac adferiad cynaliadwy COVID-19: Adeiladu bywydau llewyrchus i bawb yng Nghymru. Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRI). Canolfan Gydwethredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru Ar gael yn <https://icc.gig.cymru/newyddion1/rhoi-tegwch-iechyd-wrth-wraidd-adfer-ar-ol-coronafeirws-ar-gyfer-adeiladu-dyfodol-cynaliadwy-i-gymru/gosod-tegwch-iechyd-wrth-wraidd-ymateb-ac-adferiad-cynaliadwy-covid-19-adeiladu-bywydau-llewyrchus-i-bawb-yng-nghymru/> [Fel ar: 2 Medi 2021]
- Eriksson, M (2011) Social capital and health – implications for health promotion. *Global Health Action* 4(1). DOI: <https://dx.doi.org/10.3402%2Fgha.v4i0.5611>
- Experian (2020) Fraud rate rises 33% during Covid-19 lockdown. Ar gael yn <https://www.experianplc.com/media/news/2020/fraud-rate-rises-33-during-covid-19-lockdown/> [Fel ar: 19 Gorffennaf 2021]
- Finlay, R; Nayak, A; Benwell, M.C.; Pande, R a Richardson, M (2020) Race, place and young people in the age of Brexit. *Environment and Planning C: Politics and Space* 37(1) tud. 17-23. DOI: <https://doi.org/10.1177%2F0263774X18811923d>

- Flouris, A.D.; Dinas, P.C.; Ioannou, L.G.; Nybo, L; Havenith, G; Kenny, P a Kjellstrom, T (2018) Workers' health and productivity under occupational heat strain: a systematic review and meta-analysis. *The Lancet: Planetary Health* 2(12), tud. E521 – E531. DOI: [https://doi.org/10.1016/S2542-5196\(18\)30237-7](https://doi.org/10.1016/S2542-5196(18)30237-7)
- Fore, H.H. (2020) A wake-up call: COVID-19 and its impact on children's health and wellbeing. *The Lancet Global Health* 8(7). DOI: [https://doi.org/10.1016/S2214-109X\(20\)30238-2](https://doi.org/10.1016/S2214-109X(20)30238-2)
- Forgrave, A (2021) North Wales staycation that's seen 32% rise in spending this summer – but is it safe to visit? *North Wales Live, Daily Post*. Ar gael yn <https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/north-wales-staycation-thats-seen-21009673> [Fel ar: 19 Gorffennaf 2021]
- Gallardo, C (2021) The return of data roaming charges for Brits. *Politico*. Ar gael yn <https://www.politico.eu/article/data-roaming-charges-united-kingdom-travel-brexit/> [Fel ar: 15 Gorffennaf 2021]
- Garnett, T (2007) The alcohol we drink and its contribution to the UK's greenhouse gas emissions: A discussion paper. Working paper produced as part of the work of the food climate research network. Canolfan Strategaeth Amgylcheddol, Prifysgol Surrey. Ar gael yn <https://tabledebates.org/sites/default/files/2020-10/ALCOHOL%20final%20version%20TG%20feb%202007.pdf> [Fel ar: 22 Gorffennaf 2021]
- Gleeson, D; Lexchin, J; Labonté, R; Townsend, B; Gagnon, M.A.; Kohler, J; Forman, L a Shadlen, K.C. (2019) Analyzing the impact of trade and investment agreements on pharmaceutical policy: provisions, pathways and potential impacts. *Globalization and Health* 15(78). DOI: <https://doi.org/10.1186/s12992-019-0518-2>
- Gould, E a Kassa, M (2020) Young workers hit hard by the COVID-19 economy. *Y Sefydliad Polisi Economaidd*. Ar gael yn <https://www.epi.org/publication/young-workers-covid-recession/> [Fel ar: 19 Gorffennaf 2021]
- Gray, B.J.; Kyle, R.G.; Song, J a Davies, A.R. (2021) Characteristics of those most vulnerable to employment changes during the COVID-19 pandemic: a nationally representative cross-sectional study in Wales. *Journal of Epidemiology and Community Health* 0. DOI: <http://dx.doi.org/10.1136/jech-2020-216030>
- Green, L; Ashton, K; Edmonds, N ac Azam, S (2020b) Process, Practice and Progress: A Case Study of the Health Impact Assessment (HIA) of Brexit in Wales. *International Journal of Environmental Research and Public Health* 17(18). DOI: <https://doi.org/10.3390/ijerph17186652>
- Green, L; Edmonds, N; Clar, C; Cresswell, K; Judd, N; Wood, S; Hughes, K; Azam, S a Bellis, M.A. (2021, i ddod). Too hot to handle? A health and well-being impact assessment (HIA) of climate change in Wales. *Iechyd Cyhoeddus Cymru*.
- Green, L; Edmonds, N; Morgan, L; Andrew, R; Ward, M; Azam, S a Bellis, M.A. (2019) Goblygiadau Brexit yng Nghymru i Iechyd y Cyhoedd: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd. Y Prif Ganfyddiadau. *Iechyd Cyhoeddus Cymru*. Ar gael yn <https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/08/Implications-of-Brexit-Main-Findings-Welsh.pdf> [Fel ar: 23 Gorffennaf 2021]
- Green, L; Lewis, R; Evans, L; Morgan, L; Parry-Williams, L; Azam, S and Bellis, M.A. (2020a) Byd pandemig COVID-19 a thu hwnt: Effaith gweithio gartref ac ystwyth ar Iechyd y cyhoedd yng Nghymru. *Adroddiad Cryno. Iechyd Cyhoeddus Cymru*. Ar gael yn <https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2021/02/PHW-HIA-Home-Working-Report-Final-English.pdf> [Fel ar: 23 Gorffennaf 2021]
- Green, L; Morgan, L; Azam, S; Evans, L; Parry-Williams, L; Petchey, L a Bellis, M.A. (2020b) Asesiad o'r Effaith ar Iechyd y 'Polisi Aros Gartref ac Ymbellhau Cymdeithasol' yng Nghymru mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 Prif Adroddiad. *Iechyd Cyhoeddus Cymru*. Ar gael yn: [https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/07/HIA\\_-\\_Rapid\\_Review\\_of\\_SAH\\_Policy\\_Main\\_Report\\_Welsh.pdf](https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/07/HIA_-_Rapid_Review_of_SAH_Policy_Main_Report_Welsh.pdf) [Fel ar: 23 Gorffennaf 2021]
- Green, L; Wood, S a Bellis, M.A. (2020c) Rising to the triple challenge of covid-19, Brexit, and climate change. *BMJ* 370. DOI: <https://doi.org/10.1136/bmj.m2798>
- Griffiths, L (2019) Datganiad Ysgrifenedig: Cynhadledd y Partïon (COP25) i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (UNFCCC), Madrid Llywodraeth Cymru. Ar gael yn <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gynhadledd-y-partion-cop25-i-gonfensiwn-fframwaith-y-cenhedloedd-unedig-ar> [Fel ar: 30 Gorffennaf 2021]
